# Y DINESYDD

Chwefror 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 494 £1.50







**Merched Plastaf - tud. 21**

**Llysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - tud. 5**

**Calennig ym Methel, Penarth - tud. 16**



# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
**Marged Cartwright**

***Golygydd Mawrth***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn **25 Chwefror** at:
hefinmathias@hotmail.co.uk
029 20311240

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## O'r Pwyllgor

**Wele newyddion da i'r tanysgrifwyr ar gyfer 2025/26 – penderfynwyd rhewi'r prisiau am flwyddyn yn ein pwyllgor yn festri Salem Treganna ddechrau mis Rhagfyr.**

**£15 felly yw'r pris i'r mwyafrif heblaw am tua dwsin sy'n derbyn copi trwy'r post sef £25. Ond y gwir gost yw o leiaf £35. Bydd croeso i dalu mwy na £25 os dymunwch – fel gwnaeth rhai llynedd – diolch i chi!**

**Gwelir yma ar dudalen rhif dau, ac ar y ffurflen danysgrifio newydd 2025/26, taw David Charles, Llandaf, yw'r swyddog tanysgrifiadau newydd.**

**Byddai'n gymorth mawr i David ar gychwyn ei dymor, pe baech chi'r tanysgrifwyr yn gwneud yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen yn gywir – yn enwedig y rhai sydd heb wneud hynny ers rhai blynyddoedd a dychwelyd y ffurflen. Mae llawer o daliadau yn mynd drwy'r banc ar ddechrau mis Ebrill. Llynedd gwelwyd sawl £8, £10 neu £12 ond ers mis Ebrill 2024 ddylai neb fod yn talu llai na £15.**

**Mae yna newyddion da hefyd parthed golygyddion newydd. Diolch i Marged Cartwright am ei chymwynas yn golygu rhifyn cyntaf eleni. Bydd Dr Elen Ifan yng ngofal rhifyn mis Ebrill ac Annell Dyfri, aelod newydd o'r pwyllgor, yn golygu rhifyn gobeithio yn ystod y flwyddyn.**

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 11 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**TEGANNAU ALBATROS**, 10 Arcêd Morgan
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *Rydym yn meddwl am ddathlu Gŵyl Ddewi yn barod*.

Erbyn i chi ddarllen hyn o eiriau bydd y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi hen basio â phawb yn ôl yn y tresi wedi'r saib dros yr Ŵyl. Yn barod dathlwyd Gŵyl y Santes Dwynwen ac eisoes mae pawb yn dechrau meddwl am ddathlu Gŵyl Ddewi! Ydy hi'n wir fod pob blwyddyn yn teimlo'n fyrrach wrth fynd yn hŷn? Mae hi'n anodd credu bod saith mis wedi pasio ers cynnal chwip o Eisteddfod ym Mhontypridd. Un digwyddiad yn yr Eisteddfod honno sy'n aros yn y cof ydy'r seremoni yn y pafiliwn i urddo y cyn bostfeistr Noel Thomas yn aelod o'r Orsedd, pan gododd y gynulleidfa a'r Orsedd fel un a'i gymeradwyo yn hir wrth gofio am y cam a gafodd gan y Gwasanaeth Post.

Tybed dros Ŵyl y Nadolig faint ohonoch a fuodd yn chwarae'r gêm fwrdd Monopoli? Cafodd ei dyfeisio gan ŵr o'r enw Charles Darrow yn 1935 - blwyddyn fy ngeni i! Pan on i yn fy arddegau cynnar dwy'n cofio chwarae'r gêm hon am oriau yn ystod gwyliau'r ysgol yn nhai cyfeillion. Mae'r gêm yn dal yn hynod o boblogaidd diolch i ddyfeisgarwch Charles Darrow!

Yn ddiweddar mae rhieni o blaid addysg uwchradd Gymraeg i'w plant yn ne'r ddinas wedi bod yn ymgyrchu dros gael ysgol gyfun Gymraeg yn eu rhan nhw o'r ddinas, ond yn ôl y Cyngor, oherwydd y gostyngiad yn y genedigaethau yn y ddinas, mae lle yn y tair ysgol gyfun Gymraeg bresennol. Dadl y rhieni ydy bod eu plant, ar hyn o bryd, yn gorfod teithio ymhell i gael yr addysg honno, ac felly'n cael cam. Mae'r ymgyrchu presennol yn atgoffa rhywun o'r ymgyrchu a fu flynyddoedd yn ôl pan odd dim ond un ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas, sef Ysgol Bryntaf gyda 700 o ddisgyblion, a'r plant odd am addysg uwchradd Gymraeg yn gorfod teithio i Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ardal Pontypridd nes agor Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn 1978.

Cyn y Nadolig dylifodd apêl ar ôl apêl gan wahanol elusennau drwy fy nrws. Roedd pob un yn deilwng o gefnogaeth ac wrth eu derbyn sylweddoli cymaint o angen sy' yn y byd, ond byddai angen poced ddofn i gefnogi pawb. Yr anhawster ydy os 'dach chi'n anfon rhodd cewch eich ystyried yn "ffrind" am oes, a daw llythyr apêl gobeithiol yn gyson! Dwy'n credu bod pob elusen ym Mhrydain yn gwybod fy enw a'm cyfeiriad erbyn hyn! Yn anffodus rhaid dewis pwy i'w cefnogi, a thaflu cryn dipyn o'r apeliadau i'r bag sbwriel, a theimlo tipyn bach yn euog wrth wneud hynny!

Diddorol nodi bod clasur yr awdur JRR Tolkien *The Hobbit* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1937, ar gael rwan yn y Gymraeg yn ogystal â Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a nifer o ieithoedd eraill. Cyfieithwyd y llyfr i'r Gymraeg gan ŵr o'r enw Adam Pearce, perchennog Gwasg Melin Bapur. Dechreuodd ar y gwaith o gyfieithu'r llyfr yn ystod cyfnod Covid a gobaith y cyfieithydd ydy bydd pobl wrth eu boddau yn darllen y llyfr hwn yn y Gymraeg. Mae ffrind i mi sy'n aelod o Orsedd Cernyw newydd orffen cyfieithu y nofel i blant *Swallows and Amazons* gan Arthur Ransome i'r Gernyweg - tipyn o gamp ddywedwn i!

I chi sy'n dechrau meddwl am wneud eich trefniadau i fynychu Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn yr haf mae'n hysbys bellach ble yn union bydd y maes, sef yn ardal Is-y-Coed ar ochr ddwyreiniol y ddinas, a bydd y maes yn gyfleus ar gyfer teithwyr o bob cyfeiriad. Llinos Roberts ydy Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, gweddw'r diweddar Aled Roberts, cyn gomisiynydd y Gymraeg.

Yn rhifyn Rhagfyr/Ionawr soniais i am apêl eglwys hynafol Llanilltud Fawr am arian i ddiogelu'r eglwys i'r dyfodol. Ers hynny mae eglwys hynafol arall, sef Eglwys Collen yn Llangollen, wedi lawnsio apêl i godi arian tuag at ddiogelu nenfwd yr adeilad sy'n dyddio nôl i'r pymthegfed ganrif mae'n debyg. Mae adeilad eglwysig arall mewn perygl ar hyn o bryd sef Campws Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Ar y safle hwn nôl yn 1822 y dechreuodd addysg uwch yng Nghymru ac felly byddai'n drychinebus a'n warth pe bai'r coleg hanesyddol hwn yn gorfod cau.

Wel, dyna ddigon i gnoi cil arno am y tro a felly tan y tro nesa fy nymuniadau gorau i chi oll.

---

**Pen-blwydd Hapus Iawn**

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* anfon cofion cynnes at Gwilym Roberts wrth iddo dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ystod y mis hwn. Pob dymuniad da iddo a diolch am ei holl waith i sicrhau llwyddiant *Y Dinesydd* dros ddegawdau lawer.**

# Colofn Natur

## *Sefyllfa adar nythu Morgannwg*




**Gethin Jenkins-Jones**


Mae blwyddyn newydd wedi cychwyn, felly blwyddyn arall i ni i fwynhau bywyd gwyllt yn ein hardaloedd lleol. Yma ym Mangor, er inni ddioddef sawl storm, bu'r tywydd ar y cyfan lawer yn fwy caredig y gaeaf hwn, ond mae'n braf gweld y mynyddoedd yng nghudd dan haen o eira. Ond er bod diwedd y gaeaf dal yn weddol bell, rydw i eisoes yn paratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi arolygon y gwanwyn. Yn bennaf, fy mwriad yw cynyddu'r nifer yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn yr 'Arolwg Adar Sy'n Nythu' - ein harolwg pwysicaf - a heddiw byddaf yn ffocysu ar yr arolwg hwnnw, a'r hyn mae'r canlyniadau yn eu dweud wrthym am ein hadar lleol.


Pan mae rhai pobl yn meddwl am arolygon bywyd gwyllt, maent yn amau bod angen lot fawr o ddealltwriaeth wyddonol a digonedd o amser i fedru cymryd rhan. Er bod hyn yn wir ar gyfer llawer o brosiectau cadwraeth, mae'r Arolwg Adar Sy'n Nythu ('Breeding Bird Survey' yn Saesneg, neu 'BBS') ond yn cymryd 6-7 awr i'w gwblhau pob blwyddyn. Yr unig beth mae'n rhaid gwneud yw cerdded dwy trawslun ar hyd cilometr sgwâr, yn recordio pa adar rydych yn eu gweld a'u clywed wrth gerdded. Does dim disgwyl i chi ffeindio pob aderyn yn y sgwâr hwnnw. Os oes wir newid yn niferoedd yr adar o flwyddyn i flwyddyn, mi fydd hwnnw dal yn cael ei ddangos yn y data. Dyna'r wybodaeth dechnegol i chi - amser nawr i ni weld beth mae'r arolwg yma yn ei ddweud am ein sir ni!

Mae dros gant o adar gwahanol yn nythu ym Morgannwg ac, yn amlwg, mae rhai yn fwy cyffredin nag eraill. I gynhyrchu graff dibynadwy, mae'n rhaid iddynt gael eu recordio mewn llawer o sgwariau. Y sefyllfa ym Morgannwg yw ein bod yn medru gweld siâp poblogaeth 23 rhywogaeth wahanol, a'r peth diddorol yw bod tuedd nifer ohonynt yn wahanol iawn i'r hyn rydym yn ei weld ar draws Cymru a'r DU. Gadewch i ni edrych ar rai o'r enghreifftiau isod.


I gychwyn efo'r newyddion da, mae rhai adar yn gwneud yn dda iawn yn lleol o'i gymharu efo'u sefyllfa cyffredinol trwy'r wlad. Gallwn weld, er enghraifft, am bob 100 Bronfraith oedd gennym yn y sir yng nghanol yr 1990au, nawr mae gennym 180. Mae hyn lot yn well na'r sefyllfa ehangach (120 Bronfraith yn y DU am bob 100 tair degawd yn ôl). Mae sefyllfa debyg gan Delor yr Helyg. Mae ei phoblogaeth yng Nghymru wedi bod yn weddol ddigyfnewid dros y blynyddoedd, ac er bod hynny'n wir ym Morgannwg hefyd, yn ddiweddar, maent yn parhau i fod llawer yn fwy niferus yma na'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill Cymru. Mae gan Aderyn-y-To stori debyg, hefyd.



Ond yn anffodus, nid oes darlun mor bositif am rai o'n hadar eraill. Am ryw reswm, mae Jac-y-do wastad wedi bod yn llai cyffredin yma, ac ar hyn o bryd mae gennym lai na hanner y nifer cymedrig a geir yn rhanbarthau'r DU. Fe'm synnwyd gan y graff hwn, gan fy mod wedi joio gweld yr heidiau mawr yn ymgasglu wedi'r gwyll yn yr Eglwys Newydd am flynyddoedd. Nid yw ei pherthynas agos - y Bioden - yn ffynnu cystal ag y mae mewn ardaloedd eraill. Ond er hyn, mae'n gysur gweld bod niferoedd y ddau o leiaf wedi aros yn gyson, yn hytrach na pharhau i gwympo.




Yn anffodus, nid oes gen i ddigon o le i drafod straeon ein hadar eraill, ond os hoffech chi weld graffiau'r 19 aderyn arall, byddwn yn fwy na hapus i'w hanfon atoch chi (halwch e-bost i wales.info@bto.org). Ac wrth gwrs, os ydych yn weddol hyderus wrth adnabod adar, mi fyddai'n grêt cael mwy o bobl i wneud yr arolwg y gwanwyn hwn. Gyda mwy yn ymuno â'r tîm, byddwn yn medru asesu sefyllfa mwy o'n hadar lleol. Gallai hyn ddylanwadu ar gynlluniau a datblygiadau, a gallwn sicrhau gwell dyfodol i'r adar sy'n byw yn ein plith.

## Penodi Llysgenhadon Ysgol y Coleg Cymraeg yn Ysgolion Glantaf a Plasmawr

Allan o 29 Llysgennad Ysgol ar draws Cymru mae 2 o Ysgol Glantaf ac 1 o Ysgol Plasmawr wedi eu penodi fel Llysgenhadon Ysgol i'r Coleg Cymraeg ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25.

Mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl y llysgenhadon fydd codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion a phobl ifanc o'r manteision i barhau gyda'u Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

Ymhlith y criw newydd eleni yn Glantaf mae Glain Ifan a Rhys Matthews o ysgol Glantaf.

Meddai *Glain ei bod yn edrych ymlaen at greu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol o faes yr Eisteddfod a Tafwyl, ysgrifennu blogs* ac *annog mwy i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg*

Mae Rhys yn aelod o'r band Taran a meddai;

*"Mae cerddoriaeth yn agor y drws i bobl ifanc werthfawrogi ac i ddefnyddio eu Cymraeg tu hwnt i'r ysgol. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn lysgennad y Coleg er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw a chyffrous, sy'n agor cymaint o ddrysau."*

Menna Roberts gafodd ei dewis o Ysgol Plasmawr ac mae hi'n edrych ymlaen at *sgwrsio gyda phobl ifanc eraill sy'n siarad Cymraeg*, *codi eu hyder wrth siarad Cymraeg a dysgu mwy am opsiynau ar ôl blwyddyn 13.*

Mae'r llysgenhadon wedi dechrau ar eu gwaith a byddant yn datblygu sgiliau amrywiol wrth gynrychioli'r Coleg Cymraeg a'u hysgolion mewn digwyddiadau gan gynnwys rhai o wyliau mwyaf Cymru, ac wrth greu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd Elin Williams, Rheolwr Marchnata'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

*"Mae'r cynllun llysgenhadon ysgol yn mynd o nerth i nerth gyda nifer o ysgolion erbyn hyn yn cysylltu gyda ni yn frwdfrydig iawn i fod yn rhan o'r cynllun.*




*"Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda'r criw newydd i gyd ac yn gobeithio yn fawr y byddant yn gallu ysbrydoli eu cyfoedion yn yr ysgol i barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg."*

I wybod mwy am y llysgenhadon ac i ddilyn y cynllun yn ystod y flwyddyn ewch i wefannau cymdeithasol y Coleg Cymraeg.

Tik Tok, Instagram, X a Facebook: @colegcymraeg

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

I ddarganfod mwy ewch i: www.colegcymraeg.ac.uk.

# Merched y Wawr
# Y Felin

**'Cymru Aotearoa' gyda Llinos Patchell**

Pleser oedd croesawu Llinos Patchell i'n plith i gyfarfod cyntaf y flwyddyn i rannu ei phrofiad hi a'i theulu yn byw yn Auckland, Seland Newydd am flwyddyn, a phrofiad y plant o dderbyn addysg ddwyieithog tra yno. Erbyn hyn dim ond 3% o'r boblogaeth sydd yn siarad Te-reo, ac mae llawer o eiriau Saesneg wedi treiddio mewn i'r iaith fel sydd wedi digwydd gyda'r Gymraeg. Rhannodd bod diwylliant yr ysgol yn debyg i'n hysgolion ni o ran y corau, llysoedd, cynnal gwasanaeth ac roedd Llinos yn medru ymuno yn y dosbarth gyda'r plant i brofi diwylliant Ysgol Kura.

Nododd bod nifer o bethau eraill hefyd yn debyg i Gymru, yr arwyddion dwyieithog a'r 'Te Matatini' sy'n debyg iawn i Eisteddfod ac sy'n cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn o amgylch y wlad a'n denu dros 70,000 o ymwelwyr. Rhannodd sawl fideo o ferched Maori yn perfformio y frwydr, yr alwad, cân actol, yr Haka, a'r canu corawl - y cyfan yn dangos cryfder y merched ar flaen y gad, yn cadw trefn a chael pawb i gydymffurfio. Nodwedd arall yw'r tatŵ 'Moko' a'r minlliw du mae merched yn ei wisgo sy'n arwydd o gryfder a pharch. Mae bod yn droednoeth yn ffordd o ymgysylltu gyda'r ddaear. Roedd gweld y merched yn gwneud yr haka hefyd yn chwalu'r ddelwedd draddodiadol taw ond tîm dynion y crysau-du sydd yn ei berfformio.

Bu'r flwyddyn yn llawn profiadau anhygoel i Llinos a'r teulu ac mae hi yn benderfynol bod ei merch hefyd yn dilyn y traddodiad Maori o nabod ei gwreiddiau, parchu'r tir a'r amgylchedd a dod yn ferch gref sydd yn medru wynebu unrhyw beth. Cafwyd dechreuad gwych i'r flwyddyn yn ei chwmni hwyliog. Diolch yn fawr Llinos.



*Rydym yn cwrdd am 7.30 yh ar drydydd mis Iau y mis yn festri Capel y Methodistiaid, Ffordd Kelston yr Eglwys Newydd. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232 am sgwrs bellach.*

# Y Plygain
## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cynhaliwyd y Plygain ar nos Lun Rhagfyr 16 yng Nghapel Bethel Rhiwbeina, sef yr ail i'w gynnal yn enw'r Gymdeithas.

Agorwyd y noson mewn awyrgylch arbennig, dan olau cannwyll, gyda darlleniad gan Gwilym Roberts o stori'r geni. Yna cawsom wledd o garolau di-gyfeiliant gyda Pharti'r Efail yn rhoi cychwyn ar y canu. Cyflwynwyd yr eitemau amrywiol gan aelodau'r Gymdeithas a chan gyfeillion a ddaeth i fod yn rhan o'r Plygain, a'r cyfan wedi eu dethol yn ofalus i fynd â ni yn ôl i naws dathliad Nadolig y gorffennol.

Cafwyd cyflwyniadau gan amrywiol bartïon ynghyd â deuawdau, unawdwyr a thriawd. Roedd hi'n arbennig gweld a chlywed y bobl ieuanc o Ysgol Glantaf yn cymryd rhan yn eu Plygain cyntaf. Daethant â ffresni i Ŵyl y Plygain gan sicrhau cychwyn newydd i'r traddodiad o ganu plygainl yn yr ardal.

Wedi cwblhau'r ail gylch o garolau canwyd "Carol y Swper" yn rymus gan bob un a fu'n cyfrannu. Cyhoeddwyd y fendith gan Delwyn Sion. Canwyd un garol gynulleidfaol ar y diwedd a diolchwyd i bawb gan ein Cadeirydd Iona Edwards ac yn arbennig i'r rhai a fu'n paratoi'r noson. Gwahoddodd Iona bawb i gymdeithasu a chael paned ar ddiwedd y noson. Bydd elw'r noson yn mynd at elusen Y Ganolfan Glyd.





# Merched y Wawr Bro Radur


Shân Roberts gyda dwy dorch Nadoligaidd

**Creu Torch Nadoligaidd**

A hithau'n adeg prysur yng nghalendr Siop y Felin a Blodau Tlws, daeth Shân Williams-Roberts atom i'n tywys drwy'r dasg o greu torch Nadoligaidd. Pwysleisiodd y wedd naturiol a'r wedd gynnil, ac aeth drwy'r camau angenrheidiol. Er enghraifft, gorchuddio'r wifren â mwsogl llaith, a naddu mymryn ar risgl coeden Nadolig er mwyn ei chadw'n iraidd, ac ychwanegu planhigion sy'n para megis ewcalyptws, sgimia, ysgall, aeron, afalau ac orenau sych, heb anghofio sinamon a moch coed.

Pedair blynedd a'r ddeg yn ôl, yn dilyn marwolaeth ei thad yn ardal ei magwraeth ym Mlaenau Ffestiniog, penderfynodd Shân adael ei swydd ddarlithio a dilyn ei breuddwyd, sef gwerthu a gosod blodau.

Wrth ateb ein cwestiynau am y broses o brynu, esboniodd mai o farchnad ym Mryste y daw'r blodau a'r planhigion, wedi iddyn nhw gael eu cludo mewn cratiau o'r Iseldiroedd. Eglurodd fod Brexit wedi gwneud y gwaith o gludo yn heriol gyda'r cratiau'n cael eu dadlwytho ym mhorthladd Bryste er mwyn cyflawni'r gwaith papur gofynnol. O ran Blodau Tlws, mae prynu blodau yn parhau a'r gwaith yn cael ei werthfawrogi, yn arbennig adeg dathlu pen-blwydd neu briodas ac ar gyfer angladd.

Diolchwyd i Shân am noson ddifyr ac am ddod â chyflenwad o lyfrau'r Nadolig i'w prynu. Yna cawsom flas ar fwyta danteithion tymhorol a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor.

Oherwydd tywydd gaeafol, bu'n rhaid gohirio ein cyfarfod cyntaf y tymor hwn, ac edrychwn ymlaen at glywed sgwrs gan Arfon Haines Davies yn ddiweddarach eleni.

Ar nos Fercher 5 Chwefror, Catrin Gardiner fydd ein gwestai, a Galeri TEN fydd testun ei sgwrs am 7.30pm yn Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur CF15 8AL. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

*Gwen Emyr*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Ionawr 20 yng Nghapel Bethel Rhiwbeina, croesawyd pawb i gyfarfod cynta'r flwyddyn, a rhoddwyd croeso arbennig i'n siaradwyr am y noson, sef Peter Watkin Jones. Dywedodd ein Cadeirydd ei fod yn adnabyddus fel aelod o'r grŵp "Mynediad am Ddim" ond ei briod waith yw Partner yng Nghwmni Cyfreithiol Eversheds Sutherland. Yn ei sgwrs amlinellodd ei waith a'i ran mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus a phwrpas yr ymchwiliadau hynny, a sut y datblygodd ei yrfa fel cyfreithiwr hyd yn hyn.

Mae'n faes arbenigol iawn, ac yn ystod ei yrfa bu'n rhaid teithio i wahanol rannau o'r byd gan holi cannoedd o dystion, ond yn ddiddorol, drwy wrando ac nid holi, y ceir at y gwir, ac at y stori gyflawn. Roedd rhaid holi tystion o'r ddwy ochr gan fod yn hollol di-duedd er mwyn dod at y gwirionedd.

Amlinellodd ychydig ar ei brofiadau yn Ymchwiliad "Bloody Sunday" a fu'n gyfrwng i ddod â heddwch i Ogledd Iwerddon, Adroddiad Shipman, Adroddiad yr Arglwydd Ustus Leveson ynghyd â'r Ymchwiliad i Dân Tŵr Grenfell.

Diolchwyd iddo gan Keith Davies, un o'i gyfeillion dyddiau coleg, am ei sgwrs arbennig o ddiddorol.

*Keith Davies, Peter Watkin Jones ac Iona Edwards*



# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch

Yn ôl ein harfer blynyddol fel Cymdeithas, cynhaliom ein noson elusennol ar Nos Wener Tachwedd 22ain yn Neuadd Pentref Dinas Powys. Penderfynom, fel Cymdeithas, aros yn lleol eleni a chefnogi "Dinas Powys Voluntary Concern " neu DPVC fel y'i gelwir o fewn y pentre. Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn wirfoddolwyr gyda'r elusen hon, ac ambell un yn parhau i fod. Maent yn gwneud gwaith da o fewn y pentref, ac yn ddolen gyswllt bwysig i'r henoed ac i'r cleifion sy'n methu mynd i siopa neu gyrraedd y Syrjeri, neu'n gweld y dydd yn hir heb weld cwrcyn byw.



Roedd y noson yn llwyddiant. Roedd y Neuadd yn fwrlwm o sgwrsio a chwerthin, wrth i bobol gyfarch ei gilydd. Cafwyd cyfle i gyfnewid newyddion - sawl un heb weld ei gilydd ers blwyddyn! Cawsom gwmni "Criw Canu Penarth" i'n diddanu - cymysgedd o ganeuon Cymraeg a Saesneg a bron pob un yn gyfarwydd i'r gynulleidfa. Ar ddiwedd y noson daeth y côr a'r gynulleidfa ynghyd i ganu carolau. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd ac ar ddiwedd y noson roedd pawb ar eu traed yn rhoi cymeradwyaeth twymgalon i'r côr.

A'r newyddion gorau - yn dilyn ein cyfarfod Nadoligaidd ar Ragfyr 9fed, fe drosglwyddodd Rhodri Jones, ein Cadeirydd, siec o £1,500 i ddwylo Trysorydd DPVC, Chris Bee. Roedd yntau wrth ei fodd ac yn diolch i bawb am y gefnogaeth.

# Merched y Wawr Caerdydd

Roedd naws Nadoligaidd i'n cyfarfod fis Rhagfyr pan ddaeth Shân Williams-Roberts, perchennog Blodau Tlws yn yr Eglwys Newydd, i arddangos sut i greu torch Nadolig o ddeunyddiau naturiol. Newidiodd Shân ei thrywydd gyrfaol yn 2017 a sefydlu busnes gwerthu blodau ar-lein sydd wedi tyfu'n gyson ers hynny.



Creodd dorch ar wely o fwsogl gan ddefnyddio dail o wahanol liwiau a gwedd. Atgoffwyd ni o'r rheol 3/5/7 sy'n berthnasol i unrhyw drefniant blodau, a chynigiwyd awgrymiadau eraill ar sut i greu torch hardd. Ymddangosai mor syml yn nwylo medrus Shân! Ysbrydolwyd rhai i archebu deunydd ganddi i greu eu torch eu hun. Rhoddwyd torch Shân yn wobr raffl a chodwyd £75 i Holme Towers. Prynhawn cynhyrchiol i bawb felly.




Yng nghyfarfod Ionawr cawsom ein swyno gan Daniel Jenkins-Jones â'r ffeithiau am fywydau rhyfeddol adar. Daw Daniel o Sir Gâr, ond mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i'r BBC. Deffrodd ei ddiléit mewn adar wrth glywed aderyn yn canu yn y goedwig ger ei gartref yn 7 oed a bu'n aelod brwd o'r RSPB ers hynny.

Bellach, y wennol ddu fudol sy'n byw ar yr adain yw ei hoff aderyn. Er mwyn gorffwys, mae hanner ei hymennydd yn cysgu ar y tro. Adeilada'r dryw bach 6 nyth i'w cyflwyno i'w gymar fel y gall hithau ddewis ei hoff gartref. Teithia'r hebog tramor hyd at 200mya wrth blymio i ddal ei ysglyfaeth. Ffordd o gyfathrebu â'i gilydd yw drymio coed i gnocell y coed. Mae llygaid arbennig glas y dorlan yn caniatáu iddo weld pysgod o dan y dŵr. Mae'r titw cynffon-hir yn leinio'i nyth â 1500 o blu. Casgla'r titw tomos las tua 1000 lindys bob dydd i fwydo'i ddeg o gywion. Mae'r rhostog gynffonfrith yn bridio yn yr Arctig ac yn gaeafu yn Seland Newydd – mae'n teithio dros 18,000 o filltiroedd i gyflawni hyn! Dyma ychydig o'r enghreifftiau cyfareddol sy'n dangos mor rhyfeddol yw byd natur a bywyd adar a sut mae'r rhain wedi esblygu mewn amryfal ffyrdd er mwyn goroesi. Cawsom brynhawn dadlennol a difyr dros ben.

*Joy Davies*

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

*Steffan Webb sy'n cloriannu hanner cyntaf diddorol iawn i dymor tîm Clwb Pêl Droed Dinas Caerdydd. Ar ôl dechrau hynod siomedig bu trawsnewidiad rhyfeddol ers dechrau'r flwyddyn gan gynnwys buddugoliaeth hawdd yn y gêm ddarbi fawr yn erbyn Abertawe.*

Rhaid dweud bod tymor Clwb pêl-droed Dinas Caerdydd wedi bod yr un mor gythryblus ag arfer hyd yn hyn eleni. Wedi dweud hynny, wrth ysgrifennu hyn dwi'n gallu dweud nad ydym wedi colli gêm eleni! Ar yr un pryd cawson ni ddechrau gwael iawn i'r tymor a'r gwaethaf yn y Bencampwriaeth ers 43 o flynyddoedd. Diolch byth am y gêm gyfartal yna lawr yn Abertawe. Dim syndod felly i Erol Bulut gael ei ddiswyddo. Mwy o syndod oedd gweld Omer Riza yn cael ei gadarnhau fel rheolwr tan ddiwedd y flwyddyn. Mae perchnogion y clwb yn hoff iawn o beidio â gwario arian / gwneud penderfyniadau.



Mae Omer yn ymddangos yn boblogaidd gyda'r chwaraewyr a'r cefnogwyr ond cawn ni weld a oes rheolwr gyda phroffil uwch yn aros i ddod mewn yn yr haf. Mae pethau dipyn yn well o dan arweiniad brwd, cyfeillgar, pragmataidd ac weithiau doeth Omar. Dwi wedi dechrau hoffi fy nghlwb a'r chwaraewyr unwaith eto: Calum Chambers yng nghanol y cae; Callum Robinson yn cael ei dymor gorau efallai a Cian Ashford yn blodeuo. Hyd yn oed Andy Rinomhota a Yakou Meite yn edrych fel petai ots ganddyn nhw.

Iawn, dwi'n mynd bach yn bell nawr. Braf oedd gweld yr ymosodwr newydd Yousef Salech yn sgorio yn ei gêm gyntaf yn erbyn Millwall. Mae'n bwysig iawn i ymosodwr sgorio mor fuan ag y bo modd. Sdim llawer o ymosodwyr diweddar Caerdydd wedi sgorio'n syth. Roedd agwedd Salech yn wych. Methodd gyfle gweddol ond fe wnaeth ddyfalbarhau gan drio gwneud yn well, ac fe sgoriodd gyda symudiad ola'r gêm i sicrhau gêm gyfartal 2-2.

A dweud y gwir roedd y dewis tîm y noson honno efallai yn wael, roedd y perfformiad yn wael ac roedd y canlyniad yn siomedig. Ond ar yr un pryd roedd yr ysbryd a'r ymdrech yn wych, roedd balchder y chwaraewyr, y staff a'r cefnogwyr wir yn adfer calon y clwb. Bu protest yn erbyn y perchnogion cyn gêm Abertawe ond, oherwydd y canlyniad ni fu llawer o sôn amdano wedyn. Do, fe wnaethon ni guro Abertawe. Da, hwyl a sbri, ond bydd hi'n anodd anghofio'r dwbl dwbl.

Parhaodd y llwyddiant wrth guro Derby mewn gêm bwysig iawn. Er y gwelliant mae perygl o hyd y byddwn yn disgyn. Mae breuddwydion Wrecsam o gymryd ein lle ni yn y Bencampwriaeth yn fyw ac yn iach. Mae gobaith i ni aros lan, unwaith eto, ond mae gwir angen cysondeb a rheolwr am fwy na blwyddyn. Bu datblygiad chwaraewyr lleol ifanc yn galonogol ac mae angen i hyn barhau. Canlyniadau sy'n adlewyrchu ein lle fel tîm mawr ac rydym ni yn dîm mawr o hyd, ta waeth am y blynyddoedd anodd. Fe ddaw eto haul ar fryn, gobeithio, ac fel mae Salech yn ei ddweud "y cyfle nesa sy'n cyfri".

---

## Prys Dafydd



Bu farw Prys Dafydd, Llandaf (Tŷ Nant, Caerfyrddin yn wreiddiol) ddiwedd mis Tachwedd, yn 58 oed. Dyma gerdd gan Rhys Iorwerth er cof amdano.

Prys

Y daith drwy gaeau Llandaf a wnawn oll.
Ond yn heth ein gaeaf,
yno o hyd bydd Prys ein haf.

Y Prys fydd eto'n parhau yn gyfaill
yn atgofion sgyrsiau;
clonciwr; cricedwr y cae.

Yn ei waith, Prys ein hiaith ni; Prys yr ŵyl;
Prys yr iwcaleli,
Paned, a gwres cwmpeini.

Prys Sioned, Prys a'i wenu yn y gìg;
Prys Wal Goch y Cymry
a'i gred yn y Pethe'n gry'.

Y Prys mor hoff o'i goffi. Prys Iawen,
Prys Lewys a Cadi
a Thŷ Nant, a'n hiraeth ni.

## Ennill Gradd a Rhannu Trysor



Ar y pedwerydd ar bymtheg o Ragfyr 2024 derbyniodd **Dr Robin Gwyndaf**, mab fferm yr Hafod, Llangwm, ei ail ddoethuriaeth gan Brifysgol Bangor, sef **Doethur mewn Llên: D Litt**. Eisoes derbyniodd raddau MA a PhD am waith sydd wedi'i gyhoeddi ganddo. Y gweithiau a gyflwynodd y tro hwn ydoedd: 14 cyfrol, 71 erthygl, a phedwar recordiad sain, dwyawr yr un. Ystyriwyd hefyd ei gyfraniad cyson yn hyrwyddo astudiaethau gwerin / Ethnoleg yng Nghymru ac yn gydwladol.

Wrth fynegi ei werthfawrogiad o'r anrhydedd ddiweddaraf hon, dywedodd Robin Gwyndaf 'nad ennill gradd arall oedd bwysicaf iddo, ond gwybod y byddai'r holl ddeunydd a gyflwynodd, fel yn achos y graddau blaenorol, ar gael i ymchwilwyr yn Llyfrgell Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.'

Ychwanegodd: 'Derbyniais gyfle er yn ifanc i roi ar gof a chadw agweddau ar gyfoeth diwylliant gwerin Cymru. Ond wedi'r cofnodi, profi hefyd yr hyfrydwch o rannu'r trysor amhrisiadwy hwn â'm cyd-Gymry hoff a thrigolion sawl gwlad arall.'

Yr un modd mynegodd ei ddyled fawr i Amgueddfa Werin Cymru am 'bob cyfle a dderbyniodd er 1964. Bu'r flwyddyn 2024 yn benllanw 60 mlynedd o grynhoi yn fy hen ystafell yn Sain Ffagan archif gynhwysfawr o ddeunyddiau diwylliant gwerin Cymru. Fy nymuniad dwys yw y bydd y casgliad cyfoethog hwn yn cael ei gadw gyda'i gilydd yn Sain Ffagan ac ar gael yn rhwydd ar gyfer ymchwilwyr y dyfodol. Mawr fu fy mraint. A mawr fy niolch.'

---

## Theatr Y Sherman ar Restr Fer Gwobr Theatr y Flwyddyn The Stage am yr Ail Dro



Am yr ail flwyddyn yn olynol mae Theatr y Sherman yng Nghaerdydd wedi cael ei henwebu ar gyfer Gwobr Theatr y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage 2025.

Wrth gyhoeddi'r rhestr fer eleni, dywedodd The Stage: "Mae'r cyfarwyddwr artistig Joe Murphy a'r prif weithredwr Julia Barry wedi profi eu hunain yn fedrus wrth feithrin a chyflwyno straeon sy'n siarad â chymuned leol y Sherman yn Ne Cymru, ond sydd hefyd â chyseinedd ehangach."

Mae cyd-enwebeion y Sherman yn cynnwys @sohoplace yn Llundain; Curve yng Nghaerlŷr; Nottingham Playhouse; The Orange Tree Theatre yn Llundain a Regent's Park Open Air Theatre, Llundain.

Cynhaliwd seremoni Gwobrau The Stage 2025 ddydd Llun 20 Ionawr yn y Tŷ Opera Brenhinol yn Llundain.

Dywedodd Cyfarwyddwr Artistig Theatr y Sherman, Joe Murphy: "Rydym wrth ein bodd i fod ar y rhestr fer ar gyfer hon, y wobr fwyaf mawreddog i'r sector, am yr ail flwyddyn yn olynol. Rydym yn hynod falch o'r cynyrchiadau ddaeth yn benodol at sylw'r beirniaid – gyda rhai ohonynt yn mynd ar daith yn 2025 oherwydd y galw poblogaidd – felly mae'r gydnabyddiaeth hon o'n llwyddiannau yn golygu llawer iawn ac rydym yn ddiolchgar i dîm cyfan y Sherman am eu gwaith caled."

Meddai'r Prif Weithredwr Julia Barry: "Mae'r enwebiad hwn ar frig blwyddyn hynod lwyddiannus arall i Theatr y Sherman, a welodd nifer cynyddol y gynulleidfa ar gyfer ein cynyrchiadau. Crëwyd yn y Sherman drwy gydol 2024. Rhaid diolch yn fawr iawn i'n holl staff, gweithwyr llawrydd, cynulleidfaoedd a chefnogwyr, y mae pob un ohonynt yn rhannu'r clod am y gydnabyddiaeth hon o'n gwaith."

Mae gwybodaeth am yr wyth cynhyrchiad yn nhymor 2025 Theatr y Sherman, gan gynnwys chwe drama newydd sbon, ar gael ar ei gwefan: www.shermantheatre.co.uk .

# Pobol y Rhigwm

Diolch yn fawr am y saith limrig a ddaeth i fewnflwch y beirniad y mis hwn, nifer teilwng wedi rhoi cynnig ar gymell gwên a hynny, dybiwn i, ar adeg o'r flwyddyn sy heb enw am fod yn arbennig o siriol! Cefais gasgliad digon canmoladwy, do'dd y thema ddim yn taro tant bob tro (mwy am hynny'n y man!), ac mae'n flin gyda fi ddweud mai esgeulustod o ran mydryddiaeth a chystrawen oedd y ffactor pennaf a dynnai oddi ar gyflawniadau'r limrigwyr y mis hwn. Ar y llaw arall, fe helpodd hynny feirniad i bennu buddugwr! Dyma ddidoli'r casgliad, felly:

Mae *Beth*, *Dyddgu* a *Morfudd* wedi creu limrigau derbyniol iawn, ond yn y bôn, dydyn nhw ddim cweit yn bodloni'r hanfod i limrig fod yn bennill bach digri (hanfod ym marn y beirniaid, beth bynnag, a Meuryn y Talwrn, o'r hyn a ddeallaf!). Mae limrig *Beth*, er yn ysgafn, yn fwy o ddatganiad gwleidyddol nag unrhyw beth arall – does 'na ddim o'i le ar hynny, wrth gwrs, ond yng nghyd-destun y limrig mae gofyn iddo fod yn grafog, yn hytrach nag yn achwyniad uniongyrchol! At hynny, gwamal yw cystrawen y llinell gynta. Mentraf awgrymu mai'r un yw *Dyddgu* â *Morfudd* (os nad yw'r ffugenwau'n ddigon o gliw, mae yma ddau limrig tebyg iawn i'w gilydd, ar yr union un thema!). Gwaetha'r modd, datganiadau bach sy gan yr ymgeisydd/wyr hyn, hefyd, ac er eu bod wedi'u mynegi'n gywrain (gyda'r gorau yn y gystadleuaeth, mewn gwirionedd), dydyn nhw ddim yn limrigau – yn nhraddodiad y mesur – sy'n ceisio dweud rhywbeth digri. Diolch i'r drefn, dyna a gafwyd gan y pedwar sy'n weddill!

Er nad yw *Toshack* wedi cyrraedd y podiwm y tro hwn, mae'n werth cyhoeddi ei limrig achos mae'r cynnwys yn ddoniol! Diffygion yn y gystrawen, *Toshack*, wnaeth eich cadw rhag bod ymhlith y tri gorau'r tro hwn (ac nid y ffaith bod y beirniad yn un o gefnogwyr yr Adar Gleision ac yn ffyddiog wrth ysgrifennu hwn, ddiwrnod ar ôl curo Derby County, y cawn eto osgoi'r gwymp!). At hynny, ro'dd *Toshack* gyda'r unig ddau gystadleuydd wnaeth gynnwys odl gyrch, y tro hwn!

Mis bach medde nhw yw Mis Chwefror
Heb lawer ar ôl nawr o'r tymor
I fe Vincent Tan
I gadw'i dîm lan
Neu lawr i league wan ânt da'i drysor.

*Toshack*

Dyma ddod at y tri gorau. Mae mymryn bach o wahaniaeth rhwng limrig *Dysgwr Dynwared Esgus* a'r ddau arall, a'r gystrawen herciog sy'n cyfrif am hynny eto, mae arna i ofn. Mae nifer y sillafau'n gywir, felly digon posib mai diffyg sillafau sy'n cyfrif am linell fel "dyw ddim yn ddifrifol" (byddai 'nid ydyw'n ddifrifol' yn unioni hynny i'r dim). Ni waeth am hynny, mae'n sicr yn teilyngu lle ar y podiwm, achos, mae e'n limrig doniol iawn:

Aeth deg o'n hathrawon ni dramor
am booze-up o flaen hanner tymor.
Er gwaetha cau'r ysgol,
dyw ddim yn ddifrifol:
mis bach, medde nhw, yw mis Chwefror.

*Dysgwr dynwared esgus*

Reit te, dyma ddod at y ddau sy ar y brig, ac fe fues i'n ôl ac ymlaen o ran pwy sydd i gael y wobr gynta! Mewn gwirionedd, mae *Pig Oer* a *Betsi* ill dau'n gwbwl deilwng o'r anrhydedd! Mae ôl saernïo ar y ddau limrig, ac mae gan y naill limrigwr a'r llall gynigion gwirioneddol glyfar, wnaeth beri i fi chwerthin. Er bod themâu gwahanol iawn yma, mae'r ddau wedi llwyddo'n ardderchog i greu'r ergyd ddigri honno yn y llinell glo, yn dilyn adeiladwaith sy'n argyhoeddi. Hmmm... Iawn, o drwch y blewyn lleiaf ar y chwannen leiaf un, *Betsi* sy'n mynd â hi. Fel arall, byddai *Pig Oer* wedi cipio'r wobr yn hawdd. Mae'n limrig twyllodrus, sy'n myfyrio'n flodeuog (rhinwedd bwriadol) ynghylch natur yn ailflodeuo, cyn cloi ar nodyn annisgwyl a digri tu hwnt! Dyma fe i chi – nid *typos* sy yn y llinell glo, gyda llaw...!

Mis bach, medden nhw, yw mis Chwefror,
a wedyn bydd natur yn agor.
Ar gyrraedd Gŵyl Dewi,
bydd peilliau'n dadrewi;
wi'n pyfri ar wal fel parcharor.

*Pig Oer*

Efallai mai'r rheswm pennaf – yn wir, yr unig reswm – i fi osod *Betsi* ychydig yn uwch yw bod yr ergyd a fwriadwyd yn amlwg ar y darlleniad cynta. Yn yr un modd â limrig *Pig Oer*, mae yma adeiladwaith sy'n twyllo, gan restru'n fecanyddol, bron, nodweddion y Mis Bach a blynyddoedd naid. Mae'r tro ar y diwedd, wedyn, gymaint â hynny'n fwy effeithiol! Soniais gynnau am yr angen i ddefnyddio ffraethineb os am wneud datganiadau gwleidyddol mewn limrig. Mae *Betsi*, gyda'i ffugenw dadlennol, wedi llwyddo i wneud hynny i'r dim, llongyfarchiadau!

Mis bach, medde nhw, yw mis Chwefror:
Wyth niwrnod ar hugain, dim rhagor.
Yn bedair-blynyddol,
Mae dydd ychwanegol.
Bob canrif, mae siawns o weld doctor.

*Betsi*

**Cystadleuaeth mis Chwefror**
**Englyn neu driban: Oen**

**Enillydd Pobol y Rhigwm**
**Alan Iwi, Didcot**

**Aron Pritchard**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Chwefror at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

Clwb Canna

Waw, am noson wych yn gig diweddara Clwb Canna.

Tew Tew Tennau oedd yn agor. Band ifanc o Lansannan ydy Tew Tew Tennau, a gyrhaeddodd rownd derfynol Brwydr y Bandiau yn Eisteddfod Genedlaethol 2023, a wn i ddim pam na ddaethon nhw i'r brig. Maen nhw'n wirioneddol wych – mor dalentog. Cawsom gyfle i glywed rhai o ganeuon y band, ac fe wnaethon nhw argraff ar bob un ohonom yn y gynulleidfa. Os cewch chi gyfle, chwiliwch amdanyn nhw a'u caneuon, fel "Mabinogi", "Rhedeg Fyny'r Mynydd" a "Rho Fo'n Ôl". Mi gewch chi eich cyfareddu, a dod yn gefnogwyr yn gyflym iawn. Ewch i'w gweld os cewch chi gyfle.


*Tew Tew Tenau*


*Morgan Elwy a'r Band*

Os nad ydych chi wedi clywed am Morgan Elwy, mae'n siŵr eich bod wedi bod yn byw ar y lleuad ers blynyddoedd. Dyma'r ail berfformiad yn Clwb Canna, sy'n dystiolaeth i apêl Morgan Elwy a'r band. Wnaethon nhw ddim siomi. Roedd y gynulleidfa wrth ei bodd. Os ydych chi'n chwilio am noson sy'n gwneud i chi deimlo'n hapus, gwyliwch / gwrandewch ar y cerddorion arbennig yma. Nos Wener oer ym mis Ionawr, be' gewch chi'n well na cherddoriaeth hefo rhyw ymdeimlad Caribïaidd? Cafwyd perfformiadau gwych o "Rubadub Cymraeg", "Zion", "Cae yn Nefyn", a'r eiconig "Bach o Hwnne".

Diolch yn fawr am noson arbennig. Roedd un aelod o'r teulu ddim yna, sef Mali Elwy, sy' wedi torri'i braich. Brysia wella Mali fach. A dymuniadau gorau i chi i gyd mewn gigs a gwyliau dros y misoedd nesa. Tafwyl efallai? Yr Eisteddfod Genedlaethol?

Gig nesaf Clwb Canna fydd noson â naws "Cân i Gymru" nos Wener 14 Mawrth gyda'r cyn-gystadleuwyr, Lo-Fi Jones a Sara Davies. Mae'r tocynnau'n £15 ac ar werth yn Caban, neu drwy TicketSource. Bachwch eich tocynnau'n gyflym, gan eu bod wedi dechrau gwerthu'n barod!

# Aelwyd Hamdden

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Aelwyd Hamdden ym Mis Rhagfyr. Cyfrannodd aelodau'r Aelwyd a chawsom y fraint o gael anerchiad gan Esgob Llandaf, Mary Stallard.

Dywedodd mai amser Cymod yw cyfnod yr Adfent a Chariad yw neges y Nadolig.

Ar ddiwedd y gwasanaeth gwnaethpwyd casgliad i Tŷ Hafan.

Ar ddechrau Mis Rhagfyr bu farw un o ffyddloniaid yr Aelwyd, Y Parchedig Dyrinos Thomas, a bu nifer o'r aelodau yn y gwasanaeth o ddiolch a gynhaliwyd yng nghapel Minny Street.

Daeth y newyddion hefyd am farwolaeth cyn-aelod o 'r aelwyd , sef Joy Parry a oedd mewn cartref gofal erbyn hyn.

Mis Chwefror byddwn yn cael sgwrs am Gymorth Cyntaf ac yna yn dathlu dydd Gŵyl Dewi.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni yng Nghapel Bethel, Heol y Deri, Rhiwbeina ar fore Mercher rhwng 11 a 12. Rydym yn cwrdd bob yn ail wythnos. Os hoffech fwy o fanylion cysylltwch â Beth Killen, 02920 566508/07866 925314.



# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Gall dechrau Blwyddyn Newydd ysgogi pobl i ail-edrych ar sawl agwedd o'u bywydau, gan gynnwys materion ariannol. Dyma rai materion i chi ystyried ar ddechrau 2025:

1. Os nad oes gennych chi ***ewyllys gyfredol***, bydd eich ystâd yn cael ei rhannu yn unol â chyfreithiau diffyg ewyllys (*'intestacy'*) sydd, yn y bôn, yn dilyn y llinell waed. Gall hyn olygu bod partneriaid di-briod yn derbyn dim, tra bod aelodau'r teulu'n elwa, waeth beth yw'ch dymuniad. Bydd llanast i'ch teulu geisio'i ddatrys.

   Hefyd, ***os cafodd eich ewyllys ei hysgrifennu cyn 2010*** a bod gennych chi ***ymddiriedolaeth*** ('trust') ar ffurf dewisol (discretionary) neu fand dim cyfradd (nil rate band) yn eich ewyllys, mae angen adolygu'ch ewyllys ar frys neu efallai bydd gan yr ystâd swm treth etifeddiaeth sylweddol uwch yn y pen draw.

2. Os oes gennych chi asedau sylweddol, mae angen i chi gynllunio, neu o leiaf fod yn ymwybodol, o'ch ***sefyllfa dreth etifeddiaeth***. Gall y newidiadau sydd ar droed i ganllawiau treth etifeddiaeth ar bensiynau (o fis Ebrill 2027) ac asedau amaethyddol a busnes (o fis Ebrill 2026) effeithio ar eich cynlluniau. Mae Huw ar gael ar gyfer adolygiadau manwl neu wiriwch hyn gyda'ch cyfreithiwr/cyfrifydd presennol.

3. Set arall o ddogfennau pwysig i'w trefnu, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd wedi cyrraedd, neu sydd dros, oedran pensiwn yw ***ffurflenni pŵer atwrnai ariannol ac iechyd*** sy'n caniatáu i'ch teulu/ffrindiau agos ofalu am eich iechyd a'ch materion ariannol os byddwch yn mynd yn sâl.

4. Ydych chi wedi gwneud ***rhestr o'ch asedau ariannol*** ac a yw eich perthnasau/ffrindiau agosaf yn gwybod ble mae'r rhestr yn cael ei chadw? Mewn achos anffodus o farwolaeth sydyn, neu analluogrwydd, bydd hyn o leiaf yn sicrhau bod rhestr o'ch holl asedau ar gael i'ch ystâd.

5. Beth am eich ***asedau anariannol***, fel eich ffôn clyfar (gan gynnwys lluniau, negeseuon, ayyb)? Os oes gennych ddyfais Apple, bydd Apple yn darparu mynediad i unigolyn penodol os ydych chi'n ychwanegu ***Cyswllt Etifeddiaeth*** (*'Legacy Contact'*). Yna, gall yr unigolyn yma gael mynediad at y data sydd wedi'i storio yn eich cyfrif Apple ar ôl eich marwolaeth.

6. Gwiriwch eich ***cofnod Yswiriant Gwladol*** a ***rhagolwg o'ch Pensiwn Gwladol*** ar wefan Gov.uk i gywiro unrhyw wallau nawr, cyn i chi ymddeol.

   Y dyddiad cau ar gyfer taliadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol ar gyfer blynyddoedd treth coll rhwng Ebrill 2006 a Ebrill 2016 yw **5 Ebrill 2025**.

7. Ydych chi'n talu am nifer o wahanol fathau o ***yswiriant***? Efallai bod gennych chi bolisi yswiriant cartref da, ond hefyd eich bod wedi cymryd opsiwn yswiriant pan wnaethoch chi brynu eitemau fel ffôn neu declyn. Gwiriwch bolisi yswiriant eich cartref yn fanwl i sicrhau eich bod yn osgoi yswiriant deuol (*'dual-insurance'*) ac hefyd bod gennych chi ddigon o yswiriant ar gyfer eich anghenion.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cymrodorion Caerdydd

**Croesawu'r Athro Richard Wyn Jones**

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni'r Athro Richard Wyn Jones ar 6ed Rhagfyr. Y testun oedd 'Y Blaid ac achlysur ei ffurfio'. Cafwyd tri phen i'r cyflwyniad sef Cymru Fydd, Sylfaenwyr Plaid Cymru a Dylanwad Iwerddon. Atgoffwyd pawb am gyfraniadau nifer a fu'n cefnogi a thorchi llewys wrth geisio sefydlu plaid sosalaidd Gymreig a hynny mewn cyfnod o newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol heriol. Nodwyd rhai enwau anghyfarwydd a phwysleisiwyd pwysigrwydd rhyfeddol ardal Rhyd-ddu yn yr holl hanes. Darluniwyd y poenau tyfu wrth i'r arweinwyr gyflwyno eu gweledigaethau gan lwyddo i ffurfio a sefydlu'r Blaid yn 1924. Noson i'w chofio i gofnodi achlysur y canmlwyddiant.

Mae yna dri chyfarfod ar ôl – ac mae croeso i bawb. Cysyllter drwy ebost:
cymrodorioncaerdydd@gmail.com

| | |
|---|---|
| 7 Chwefror | Cofio E P Hughes<br>Dr Sian Rhiannon |
| 20 Mawrth | Cinio Gwyl Dewi yn Yr Hen Lythyrdy, Sain Ffagan.<br>Gwraig Wadd: Sian Meinir |
| 4 Ebrill | Cofio Gwyn Alf Williams<br>Dr Gethin Matthews |

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

**Baled hiraethlon Dai'r Cantwr o Lancarfan**

Peth cyfarwydd yng Nghymru'r 19eg ganrif oedd gweld baledwyr yn crwydro'r wlad, o ffair i ffair ac o farchnad i farchnad, yn perfformio caneuon ac yn gwerthu am geiniog daflenni bach pedair-ochr a oedd yn cynnwys un neu ddwy o gerddi. Ac yn gynyddol, tyrrent hefyd i'r trefi a oedd yn tyfu fel madarch yn ystod y ganrif, yn arbennig yng nghymoedd diwydiannol y De, lle y gallent werthu'r taflenni bychain hynny wrth y miloedd, yn enwedig ar nos Sadwrn pae.

Enghraifft dda o hynny yw un o'r baledwyr enwocaf oll, sef Richard Williams, neu 'Dic Dywyll' fel y'i gelwid, am ei fod yn ddall. Un o sir Fôn ydoedd, ond treuliodd lawer o'i amser rhwng dechrau'r 1820au a chanol yr 1840au ym Merthyr, a gallai wneud ffortiwn fach yno – er y byddai, mae'n ymddangos, yn gwario ei arian ar ddiod mor gyflym ag y byddai'n ei ennill. Yn anterth ei boblogrwydd, enillai gymaint â £3 yr wythnos – a oedd yn fwy na chyflog rheolwr yn y ffwrneisi haearn – a dywedir iddo lwyddo i gael £8 un nos Sadwrn wrth werthu copïau o'i faled boblogaidd *Cân newydd o anogaeth i bawb feindio ei fusnes ei hunan*, sy'n golygu y byddai wedi gwerthu bron 2,000 ohonynt ym Merthyr y diwrnod hwnnw.

Weithiau, fel yn achos Dic, byddai baledwr yn gwerthu cerddi o'i gyfansoddiad ef ei hunan, ond yn aml iawn, byddai'r taflenni baledi yn cynnwys cerddi gan awduron amrywiol. Amrywiol hefyd oedd natur y cerddi a'u hansawdd. Roedd rhai yn newyddiadurol, yn adrodd am lofruddiaethau a damweiniau ac yn y blaen; eraill yn gerddi serch, neu yn mynegi hiraeth, neu yn rhai ysgafn a doniol; eraill wedyn yn grefyddol, neu yn foeswersol, neu yn rhybuddiol. Yr hyn oedd yn gyffredin iddynt oedd eu bod oll yn apelio at chwaeth y werin bobl ac wedi eu hanelu at eu diddanu a'u denu i wario eu ceiniogau prin.

Roedd y taflenni baledi hyn yn cyflawni swyddogaeth nid annhebyg i bapurau newydd, ac wrth i nifer y papurau newydd fynd ar gynnydd yn ystod y 19eg ganrif, ac yn enwedig yn nhraean olaf y ganrif honno, gwelid nifer y baledwyr yn lleihau'n arwyddocaol, gan ddiflannu'n llwyr i bob diben erbyn dechrau'r 20fed ganrif.

Cerdd faledol a ddaeth yn hynod boblogaidd yn ail hanner y 19eg ganrif oedd un yn dwyn y teitl *Cân hiraethlon David Davies (Dai'r Cantwr), pan yn garcharor yng Nghaerfyrddin, am y terfysg yn amser Beca*. Fe'i hargraffwyd droeon ar y taflenni baledi, gan argraffwyr ym Merthyr, Aberdâr, Abertawe, Ystalyfera, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Aberystwyth a Chaernarfon, heb sôn am lawer enghraifft ohoni ar daflenni heb enw argraffydd wrthynt. Fe'i hatgynhyrchwyd hefyd mewn sawl papur newydd tua diwedd y 19eg ganrif; a gallai'r cymeriad lliwgar hwnnw, 'Morien' (Owen Morgan, 1836?–1921), ddweud yn y *Western Mail* yn 1890, fod y faled honno yn 'popular throughout the world wherever the Welsh language is understood [… and] still thrills the hearts of the Glamorgan men and women' – a hynny ar gyfri'r ffordd y mae'r bardd yn canmol Morgannwg i'r cymylau ynddi.

Atgynhyrchir y gerdd isod, ac fel y gwelir mae'n ymffurfio'n bedwar pennill, a'r rheini'n rhai hir iawn. Y mae hefyd yn gerdd eithaf cywrain, yn llawn odli a chyseinedd. Fel sy'n ddigon cyffredin yn yr hen ganu rhydd, mae'r bardd yn rhoi rhywfaint o fanylion amdano ei hun yn y pennill olaf, ac fe ddywed yn y fan honno iddo gael ei eni yn Nhre-gof (Treguff) ym mhlwyf Llancarfan ym Mro Morgannwg, a hynny, mae'n debyg, yn 1812 neu 1813 – ychydig dros drigain mlynedd ar ôl i Iolo Morganwg gael ei eni yn yr un plwyf.

Roedd Dai'r Cantwr yn fab i ffarmwr, a bu'n gweithio ar y tir ei hunan ac yn gallu aredig. Ond ceir yr argraff ei fod yn un pur aflonydd. Symudodd i weithio mewn nifer o fannau yn siroedd Morgannwg, Mynwy a Chaerfyrddin, ac ym myd diwydiant yn ogystal ag ar y tir. Yn nhrydydd pennill ei gerdd, mae'n enwi Pen-y-bont ar Ogwr a 'Cadoxton' (sef Tregatwg, Y Barri). Mae'n debyg iddo weithio mewn chwarel ym Mhen-y-bont a labro ar y tir yn Nhregatwg, a dywedir iddo fod yn bregethwr cynorthwyol gyda'r Wesleaid ym Mhen-y-bont ac y byddai'n mynychu capel Philadelphia y Bedyddwyr pan oedd yn Nhregatwg. Bu hefyd yn gweithio am gyfnod ym Mlaenau'r Cymoedd, gan gynnwys yn Nhredegar ac yn Nhroedrhiw'r-clawdd (*Victoria*) yng Nglyn Ebwy, ond erbyn 1843 roedd yn gweithio ym myd diwydiant yng Nghwm Gwendraeth a'r cyffiniau.

Roedd yr 1830au a'r 1840au yn gyfnod o aflonyddwch mawr yn gymdeithasol yng Nghymru. Dyma gyfnod y Siartwyr, a chyfnod Terfysgoedd Rebeca yn yr ardaloedd gwledig yn y de-orllewin. Ac fel y dywed pennawd ei gerdd, ymunodd Dai'r Cantwr yn 'y terfysg yn amser Beca' pan oedd yn byw yn nwyrain sir Gaerfyrddin. Fe'i harestiwyd mewn tafarn ym Mhump-hewl ger Llanelli ym mis Medi 1843 a'i garcharu yng Nghaerfyrddin, ac fe'i dedfrydwyd yno yn Rhagfyr 1843 i ugain mlynedd o alltudiaeth yn 'Van Diemen's Land' (sef Tasmania) am falu tollglwyd ger Cydweli.

Dywedir i Dai'r Cantwr lunio ei faled tra oedd yng ngharchar Caerfyrddin, wedi iddo gael ei ddedfrydu. Mae'r pennill cyntaf yn dechrau 'Drych i fyd wyf i fod'. Mae'r gair 'drych' yn y fan honno'n golygu 'esiampl', ac mae'r pennill yn mynd yn ei flaen i alaru am yr alltudiaeth o ugain mlynedd oedd o flaen y bardd, a'r drygfyd a'r colli rhyddid oedd bellach wedi dod i'w ran, yn lle'r posibilrwydd o ennill clod a bri; ac mae'r penillion sy'n dilyn yn alargan ddwys am Gymru, ac yn

benodol am Forgannwg, lle y cafodd fagwraeth 'dirion' mewn ardal ffrwythlon ('brasfan bro') oedd gystal lle â pharadwys Gardd Eden. Ond yn hytrach, roedd yn awr yn gorfod mynd o blith y Cymry (sef 'hil Gomer', hen drigolion Ynys Prydain) 'i dir Babel', yn debyg i fel y cafodd yr Israeliaid gynt eu gorfodi i fynd yn alltudion i Fabilon, gan grogi eu telynau ar yr helyg yno ac wylo (Salm 137). Neu fel y dywed Dai yn y pennill olaf, mae'r 'impyn llon' yn awr 'yn llaith', hynny yw 'yn wylo dagrau'.

Cyhoeddwyd cerdd Dai'r Cantwr am y tro cyntaf yn *Y Diwygiwr*, cylchgrawn a olygwyd gan David Rees, y gweinidog Annibynnol radicalaidd o Lanelli, a hynny yn rhifyn Mawrth 1844. Erbyn hynny, roedd Dai wedi ei drosglwyddo i garchar Millbank yn Llundain, ac fe hwyliodd i'w alltudiaeth ar y llong *London* ar 12 Mawrth 1844. Derbyniodd bardwn dan amodau ym mis Awst 1855, ond er yr hiraeth mawr am Forgannwg a fynegodd yn ei gerdd, ymddengys na ddaeth 'byth yn ôl', fel y proffwydodd yn niwedd y faled.

Fel 'Taff Davis' yr adwaenid ef yn Tasmania. Trodd ei law at sawl gorchwyl yno, megis trin y tir a thrwsio heolydd, a bu farw yn un o dai-allan gwesty yn Ross, Tasmania, ym mis Awst 1874, mewn tân a ddechreuwyd ganddo ef ei hun yn ei feddwdod.

Fel yr awgryma ei lys-enw 'Cantwr', roedd Dai yn gerddor medrus. Dywedodd ef ei hun wrth yr awdurdodau yn 1844 iddo gael yr enw '[because] I taught them to sing at church'. Yn yr un ffurflen, gyda llaw, fe'i disgrifid fel un oedd yn bum troedfedd ac un fodfedd ar ddeg o ran ei daldra, a chanddo ben hirgrwn, gwallt brown, llygaid du, barf cochlyd a cheg fawr; a dywedid y gallai ddarllen ac ysgrifennu a'i fod yn ddi-briod. Ymddengys iddo fod yn arwain corau pan oedd yn sir Fynwy. Mae'n bosibl hefyd y medrai ganu'r ffidil, y ffliwt a'r delyn. A byddai ei lais canu yn sicr yn gaffaeliad mawr wrth iddo weithio ar y tir, oherwydd dywedir fod ychen yn gwrthod aredig oni bai fod rhywun yn canu iddynt.

Y dôn y gosodwyd cerdd Dai'r Cantwr arni oedd 'Roslyn Castle'. Fe'i cyfansoddwyd, yn ôl pob tebyg, yn yr Alban yn yr 1740au. 'The House of Glamis' oedd enw'r dôn yn wreiddiol, ond fe'i newidiwyd i 'Roslyn Castle' wedi i gerdd am y castell hwnnw gael ei chanu arni. Mae Castell Roslyn yn agos i Gaeredin, ac mae gan ei gapel le amlwg yn nofel Dan Brown, *The Da Vinci Code* (2003). Yr enw a roddwyd ar y dôn yng nghasgliad Nicholas Bennett, *Alawon Fy Ngwlad* (1896), gyda llaw, oedd 'Castell Rhôs-y-Llan'.

Defnyddiwyd 'Roslyn Castle' yn dôn ar gyfer gorymdeithiau milwyr Prydain adeg Rhyfel Annibyniaeth America, a daeth i gael ei gysylltu'n arbennig ag angladdau. Roedd yn ddewis priodol iawn, felly, ar gyfer canu galargan hiraethlon Dai'r Cantwr arni. Ceir sawl enghraifft ar YouTube o bobl yn canu'r dôn, gan gynnwys y baledwr o Bontypridd, Dafydd Idris (https://www.youtube.com/@cymdeithasalawongwerincymr5581), ac mae fersiynau print ohoni gan Tegwyn Jones yn *Hen Faledi Ffair* (1971) a chan Phyllis Kinney a Meredydd Evans yn *Canu'r Cymry* (1984).

Dyma, felly, gerdd gwynfanus Dai'r Cantwr, un o faledi mwyaf poblogaidd y Gymraeg yn ail hanner y 19eg ganrif:

Drych i fyd wyf i fod,
Collais glod all'swn gael;
Tost yw'r nod, dyrnod wael,
I'w gafael ddaeth â mi.
Yn fy ie'nctid drygfyd ddaeth,
Yn lle rhyddid caethfyd maith
Chwanegwyd er fy ngofid.
Alltud wyf ar ddechrau 'nhaith,
Caf f'anfon o fy ngwlad,
Tŷ fy nhad, er codiad tirion,
I blith y duon gôr,
Dros y môr, o'm goror gron.
O'r fath ddrycin i mi ddaeth!
Alltud hir, gyr hyn fi'n gaeth
Dros ugain o flynyddoedd,
Tost yw'r modd, cystudd maith.

Can' ffarwél i fy ngwlad
Annwyl, fad, fu wrth fy modd;
Amal les ges ar goedd
Rhwng dy wych aberoedd di.
O! ffarwél i Walia gron,
Ei dolydd glwys, a'i llwyni llon;
Heb bryder gwn mai Prydain
Yw gardd y byd i gyd o'r bron.
Hil Gomer mwy ffarwél,
I dir Babel fe'm danfonir;
Dros heli mae fy nhaith
Arw, faith – Duw fo i mi'n fur.
Ffarwél i rianod glân,
Teca'u pryd a chroywa'u grân;
Er penyd, mae poen anian,
Dirwyn mae Dewi i'r man.

Plas Tre-gof angof fydd,
Cystudd prudd i Ddafydd ddaeth;
Calon lwys droir yn llaith
Wrth weld y fordaith bell.
Plwyf San Tathan, brasfan bro,
A Chadoxton, lle treuliais dro,
A Phen-y-bont ar Ogwr,
Ffafwr Duw fo i'nt yn do.
Yn iach, Forgannwg wych,
Sŵn dy glych, henffych i'th deulu;
Dy fröydd a'th ddolydd glân,
Hafal fan i Eden fu.
Ffarwél Mynwy lon ei swyn,
O Droedrhiw'r-clawdd yn hawdd caf gŵyn;
Tredegar a'i thrigolion,
Hylon fan, bu i mi'n fwyn.

Dichon bydd rhai o'u bodd
Yn gofyn pwy oedd y bardd;
Gwn nid oes dyn a wardd
Un a dardd o'm hannwyl dir.
O wlad Forgan wiwlan daeth
Yr impyn llon sy'n awr yn llaith
Yng ngharchar sir Gaerfyrddin,
Cur i'm cof, rwy'n eithaf caeth.
Llancarfan ydyw'r plwyf
Lle tarddodd nwyf fy nhyfiant dynol;
Fe'm ganed yn Nhre-gof –
Ffwrdd y ffôf – 'ddo'i byth yn ôl.
Rhof fy enw i chwi'n driw,
David Davies hoenus yw;
Dymunwn i'm hiliogaeth
Hir oes faith uwch gwaith fy Nuw.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cariad at ein cyfeillion sy'n wynebu sialens salwch yn y teulu, Alun a Helen, Eifion, Bryan, Eirlys a Betsan.

Anfonwn ddymuniadau gwresog at Beca sy'n cychwyn ar gyfnod newydd wrth fynd i Awstralia. Yn oedfa gyntaf 2025 dan arweiniad ein gweinidog, buom fel cynulleidfa yn cyd-ddweud ein Cyfamod Eglwysig. Ymhlith yr anogaethau mae 'Darllen y Beibl'. Mewn ymateb i'r her rydym yn cychwyn ar gyfres o fentrau i gyfoethogi'n dirnadaeth o'r Llyfr Mawr.

Mae atgofion ein ffair aeaf ym mis Tachwedd yn gwanhau erbyn hyn, ond da oedd clywed yn ddiweddar bod y digwyddiad wedi dwyn elw sylweddol a bydd y swm o £2,000 yn chwyddo'r cyfraniad at ein helusen leol am 2024 sef Forget-me-not.

Cynhaliwyd clonc cymdeithasol a hwyliog ar Ionawr 23 pan fu Hazel yn ein difyrru gyda'i hatgofion o Ddydd Calan ei phlentyndod.

Bu Bethel, gydag eglwysi eraill Penarth, yn rhan o'r gweithgareddau i nodi Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol (Ionawr 18-25). Y thema oedd 'A wyt yn credu hyn?' Dyma'r cwestiwn y gofynnodd yr Iesu i Martha (Ioan 11, 17-27). Hefyd roedd yr wythnos yn achos i nodi bod eleni yn 1,700 blynedd ers cyhoeddiad Cyngor Nicea.

Yn rhan o'i myfyrdodau ar y thema Mind the Gap ar Sul, Ionawr 12, cyfeiriodd Siân Meinir at hanesyn sy'n sôn am y llais sy'n cyhoeddi'r rhybudd ar orsaf Embankment ar linell y Gogledd ar rwydwaith y trên tanddaearol yn Llundain. Cewch ragor ar Google.

## EGLWYS TEILO SANT

Mae'n flwyddyn Jiwbilî! Mae'r Pab Ffransis wedi cyhoeddi bod eleni, chwarter canrif ers troad y Mileniwm, yn Flwyddyn Jiwbilî.

Mewn gweithred symbolaidd yn Rhufain, cynhaliwyd seremoni i agor drws Gorllewinol Basilica Pedr Sant i ddynodi hyn. A galwodd y Pab ar bawb i fod yn Bererinion Gobaith eleni

Mewn llythyr bugeiliol, dywed Archesgob Mark bod gobaith sydd wedi'i wreiddio yng nghariad Crist yn ganolog i'r Jiwbilî. Wrth i ni ystyried ein bywydau fel teuluoedd a chymunedau, cawn ein hannog i gael ein hadnewyddu ar ein taith.

Un ffordd o wneud hyn yw dod yn bererinion – yn llythrennol felly. Mae ymgymryd â thaith gorfforol yn dod yn fwyfwy poblogaidd, ac mae'n hen, hen draddodiad yn yr Eglwys. Felly, mae'r Archesgob wedi dynodi safleoedd arbennig o bererindod o fewn Archesgobeth Caerdydd-Mynyw, ac yn ein hannog i ymweld ag un ohonynt eleni.

Gallwn edrych yn ôl gyda'n teuluoedd a'n cyfeillion ar lawenydd a thristwch yr amser aeth heibio, a chael ein hadnewyddu gyda gweithred gorfforol o deithio fel pererinion yng nghariad Crist. Mae angen i ni ymestyn allan yn ogystal, a thrwy gyd-gerdded fel pererinion, y gobaith yn y flwyddyn arbennig hon, yw y gallwn ni gynnig gobaith ein ffydd i'r rhai sydd gymaint angen y gobaith hwnnw yn y byd o'n cwmpas.

Offeren fisol: 23 Chwefror, 4 30pm, Eglwys Teilo Sant. Croeso cynnes i bawb. Mae'r Offeren ar gael yn fyw ar wefan yr eglwys: www.stteilos-olol.co.uk



*Hazel a'i Chalennig*

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Hyfryd yw gweld y nifer sy'n mynychu'r oedfaon yn Eglwys y Crwys yn cynyddu. Mae'n braf gallu cyd-gymdeithasu unwaith eto wyneb yn wyneb. Mae'r niferoedd sy'n ymuno o'u cartrefi ar Zoom yn hynod deilwng hefyd.

Cawsom groesawu yn ôl i'r oedfa foreol y Dr Joan Williams a Mrs Janet Wheatley, y ddwy ohonynt wedi cael triniaethau yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Pob dymuniad da a dymunwn llwyr wellhad iddynt.

Llongyfarchiadau i Robin Owen a fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd yn ysgol Cantonian y tymor nesaf. Dymuniadau gorau i ti Robin a diolch i ti am dy holl waith yn Y Crwys.

**Taith Gerdded**

Bu'r Daith Gerdded Flynyddol wedi'r Nadolig o amgylch y Morglawdd ym Mae Caerdydd. Diolch i'r criw bychan a ddaeth ynghyd ar ddiwrnod oer. Roedd y baned boeth yn yr Eglwys Norwyeg ar y diwedd i'w groesawu'n fawr.

**Cydymdeimlad**

Ychydig cyn y Nadolig daeth y newyddion trist am farwolaeth un o'n cyn aelodau Mr Huw Roberts. Mae'n cydymdeimlad dwysaf â'i weddw, y Parch. Lona Roberts, a'r plant, Dafydd, Mared a Gwerfyl a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Meddyliwn amdanynt.

**Gwasanaeth Dechrau Blwyddyn**

Braint oedd cael bod yn bresennol yn y Gwasanaeth hwn o dan nawdd Y Gymdeithas ac a drefnwyd gan Hannah Thomas. Cafwyd Myfyrdod gan Thomas Williams ar y thema 'Y Coed - Bwrw Gwreiddiau o'r Newydd'. Roedd yn wasanaeth hynod nodedig a bendithiol a hyfryd oedd gweld ein pobl ifanc yn cymryd rhan. Diolch i bawb.

**Trefn Gwasanaethau mis Mawrth, yr oedfaon am 10.30 a.m. a 6.00 p.m.**

Mawrth 2il: Bore – I'w drefnu; Hwyr: y Parch. Dafydd Andrew Jones (Oedfa Gymun)

Mawrth 9fed – Bore: Gwasanaeth Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul; Hwyr; Parch. Gethin Rhys

Mawrth 16eg – Parch. Denzil John

Mawrth 23ain – Mr Thomas Williams

Mawrth 30ain – Mr Thomas Williams

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

**Dechrau da i 2025**

Ar fore rhewllyd ddechrau Ionawr, daeth criw da o aelodau ynghyd yn Llandaf i gymdeithasu dros baned yn *Coffi Lab* cyn ymlwybro i lawr i'r Eglwys Gadeiriol a mwynhau cinio braf yn y *Malsters,* gan hel atgofion am hen ffrindiau a chreu rhai newydd. Cynhaliwyd oedfa Blygain eto eleni yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Sain Ffagan, brynhawn Sul, 12 Ionawr. Cawsom Blygain da – cyfres gyfoethog o eitemau, cynulleidfa niferus a gwrandawiad astud. Nos Fawrth, 21 Ionawr, dan nawdd y Gymdeithas Ddiwyllianol, cawsom y fraint o wrando ar anerchiad ysbrydoledig a chofiadwy ar y thema 'Dychmygu Heddwch' gan Mererid Hopwood.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 2 (oedfa gymun yn y bore), 9 ac 16 Chwefror. Bydd yr oedfa foreol i'r teulu ar 9 Chwefror. Fore Sul, 16 Chwefror, cynhelir gweithgaredd arbennig i deuluoedd ifanc yr eglwys, *Teulu Mini* – cyfle i'r plant gael ychydig o hwyl a dod i adnabod ei gilydd yn well tra bo'r rhieni'n cael paned a sgwrs. Byddwn yn croesawu'r Parchg Denzil John ddydd Sul, 23 Chwefror. Yn ystod oedfaon bore Sul 2, 16 a 23 Chwefror y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod a bydd sesiwn PIMS am 17:00 ar 2 Chwefror.

**Gweithgarwch y mis**

Cynhelir sesiynau Bethania ar nos Fawrth 11 a 25 Chwefror. Bydd y Gymdeithas yn cynnig dwy sesiwn y mis hwn: 4 Chwefror, noson yng nghwmni Catrin Hughes Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd, Amgueddfa Cymru; 18 Chwefror, 'Mab y Mans' yng nghwmni Arfon Haines Davies.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am ddau o'n haelodau, sef Dyrinos Thomas (Cyncoed) a Joye Parry (Llandaf gynt ond mewn cartref gofal ers nifer o flynyddoedd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau deulu a'u holl gyfeillion.

## EBENESER

**Nadolig 2024**

Bu tymor yr Adfent yn un byrlymus, yn llawn addoliad, gweithgarwch a llawenydd. Bu gweithgor o aelodau yn brysur yn trefnu oedfaon arbennig, ac o'r herwydd cafwyd amrywiaeth iachus o gyfarfodydd wrth ddathlu geni ein Gwaredwr a'n Meseia Iesu Grist. Diolch i aelodau'r gweithgor am eu gwaith.

**Llanllanast**

Cynhaliwyd Sesiwn Nadolig Llanllanast ar fore Sul 15fed o Ragfyr, gyda chrefftau, fideo am eni'r Iesu, a bwyd blasus. Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu, yn enwedig y criw diwyd sy'n gyfrifol am Lanllanast. Yna, yn y pnawn cafwyd Carolau a Chacen yn neuadd y Methodistiaid o dan arwein Catrin Roberts. Braf oedd cael croesawu cyfeillion atom i ganu a dathlu gyda'n gilydd.

**Cydaddoli**

Ar y Sul cyn y Nadolig roedd dwy oedfa eto. Yn y bore cafwyd oedfa ar y thema Gwarth, Gwyrth a Gwerth y Nadolig gydag aelodau'n arwain; gyda'r nos roedd oedfa garolau ddwyieithog ar y cyd gydag aelodau yr eglwys Fethodistaidd. Yna ar fore dydd Nadolig daeth cynulleidfa niferus i gapel y Methodistiaid i addoli ac i fyfyrio ar arwyddocâd y geni gwyrthiol. Daeth plant ag anrhegion i'w dangos a chafwyd llawer o hwyl yn eu cwmni.

**Cwrdd Chwarter Awr**

Cyfarfod ychwanegol sydd wedi bod yn cael ei gynnal gan Ebeneser, am 1.00 ar ddydd Iau cyntaf y mis, yng nghapel y Methodistiaid, yw'r Cwrdd Chwarter Awr. Y bwriad yw rhoi cyfle i bobl fynychu gwasanaeth byr o addoliad yn ystod yr wythnos. Beth am ddod draw i ymuno gyda ni yn ystod y misoedd nesaf ar ddydd Iau 6ed Chwefror, 6ed Mawrth, neu 3ydd Ebrill?

**Noson Gyri**

Ar nos Fawrth, 21ain o Ionawr roedd hi'n gyfle gwych i gymdeithasu tra'n codi arian at yr elusen. Roedd 29 wedi dod at ei gilydd i fwynhau pryd o fwyd ym mwyty Indiaidd yr Empire, Albany Road, gyda'r nod o godi arian i'r ddwy elusen, Hosbis y Ddinas a Marie Curie. Cafwyd gwledd a chyfanswm elw'r noson oedd £402.

## BETHEL , RHIWBEINA

Braf oedd gweld y capel yn llawn ar Ragfyr 16 pan gynhaliwyd gwasanaeth y Plygain dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Roedd y capel yn llawn eto ar Ragfyr 22 pan ddaeth llu o rieni, aelodau a ffrindiau i gefnogi'r plant wrth iddynt gyflwyno Stori'r Geni. Diolch unwaith eto i Sion Corn am ddod i'r parti ar ôl y gwasanaeth. Ymhlith y gynulleidfa oedd Llinos Howells oedd newydd ddychwelyd o Batagonia lle bu'n athrawes yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Cafodd groeso cynnes gan bawb.

Dechreuwyd y flwyddyn newydd yng nghwmni Helen Jones ar Sul cyntaf y mis ac ar y Suliau canlynol cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Aled Gwyn, y Parch. Gwilym Wyn Roberts a'r Parch. Jeff Williams.

Cynhelir Ysgol Sul ar Chwefror 16, Mawrth 16, Ebrill 13 a Mehefin 22.

Rydym yn dymuno'n dda i Wyn Jones, ein trysorydd gweithgar, wrth iddo ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Chwefror.



*Plygain Eglwys Minny Street*

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):
Chwefror 2025:
2 – Oedfa Gymun - Parchedig Dafydd Owen
9 – Delwyn Sion
16 – Aelodau Radur
23 – Marc Jon Williams
Mawrth 2025:
2 – Oedfa Dewi Sant yr Ysgol Sul
9 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion

Ers yr 20fed o Ionawr eleni mae Donald J Trump yn ei ôl yn Arlywydd. Cynhaliwyd yr urddo yn *Rotunda'r* Capitol yn ninas Washington DC - "*calon symbolaidd a materol*" democratiaeth y wlad.

Cyflwynwyd gweddïau gan Archesgob Catholig Efrog Newydd, Timothy, Cardinal Dolan, ac hefyd y Parchedig Franklin Graham, mab Billy Graham. Canolbwyntio ar bwysigrwydd gweddïo a wnaeth y cyntaf, a diolch am gymwynas Duw yn sicrhau ymyrraeth ddwyfol er gwarchod yr Arlywydd newydd wnaeth yr ail. *"Y Ti, a Thi yn unig a arbedodd ei fywyd a rhoist nerth a grym iddo drwy dy law dy hun.*"

Y diwrnod canlynol cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Cenedlaethol, yn Eglwys Gadeiriol y ddinas - "*Tŷ gweddi cenedlaethol*" a "*Chartref ysbrydol y genedl*". Clywyd pregeth danllyd gan y Gwir Barchedig Mariann Edgar Budde, Esgob Washington. Tra'n edrych i fyw llygaid mynychwyr y rhes flaen, meddai:- "*Yn enw ein Duw ni, gofynnaf i chwi dosturio wrth y bobl rheini yn ein gwlad sy'n ofnus 'nawr. Mae yna blant hoyw, lesbiaidd a thrawsrywiol mewn teuluoedd Democrat, Gweriniaethol ac annibynnol. Mae rhai ohonynt yn ofni'r gwaethaf.*"

Bedair blynedd union yn ôl (urddo Joe Biden), 'rwyn cofio gwrando ar ferch ifanc groenddu, 22 mlwydd oed, o'r enw Amanda Gorman – yn adrodd "Y Bryniau a Ddringwn"

*"… os y bydd i ni blethu maddeuant a chadernid, a chadernid a chyfiawnder, yna cariad fydd ein cymynrodd, a newid fydd genedigaeth-fraint ein plant."*

Tybed ai Graham, Musk a'i debyg, ynteu Budde a Gorman, fydd yn cael clust yr Arlywydd yn ystod ei bedair blynedd nesaf yn y Tŷ Gwyn?




## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Darganfod Cristnogaeth**

Bob nos Fercher o 15 Ionawr i 19 Chwefror, am 7.30 tan 9.00, cynhelir sesiynau ar gyfer archwilio a dod i wybod mwy am y ffydd Gristnogol. Mae croeso i unrhyw un sydd â chwestiynau, chwilfrydedd neu ddymuniad i drafod yn agored dros baned.

Cynhelir y sesiynau dan arweiniad Gwydion Lewis yn siop goffi 122 Whitchurch Rd., CF143JN.

**Clybiau Plant a Phobl Ifanc**

Cynhelir Clwb Hapus Awr am 18.00 tan 19.00 ar gyfer plant Ysgol Gynradd a'r Clwb Ieuenctid ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd am 19.00 bob nos Wener yn ystod y tymor ysgol. Cynhelir y ddau glwb yn un o neuaddau Parc y Mynydd Bychan CF144EP. Croeso cynnes i blant a phobl ifanc .

**Amser Paned**

Mae croeso cynnes i festri'r Tabernacl Yr Eglwys Newydd bob bore Gwener yn ystod y tymor ysgol o 10.00 tan hanner dydd. Dewch i fwynhau paned, cwmni a sgwrs.

## SALEM, TREGANNA

Mae wedi bod yn brysur iawn yn Salem dros y misoedd diwethaf, gyda llu o ddigwyddiadau dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, ond y peth cyntaf yr hoffem ei wneud yw dymuno'n dda i Evan, ac rydym yn edrych ymlaen at dy weld cyn bo hir.

**Requiem Fauré**

Llongyfarchiadau i Gôr Caerdydd ar y cyflwyniad hyfryd o Requiem Faurë yn Salem nos Sul 1 Rhagfyr, a diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi. Roedd yn arbennig.

**Nadolig**

Ydy, mae'n fis Chwefror, ond rhaid diolch i bawb a fu'n trefnu digwyddiadau'r Nadolig, gan gynnwys Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar 15 Rhagfyr, a Gwasanaeth y Goleuni y noson honno. Roedd yn hyfryd gweld yr holl blant yn y bore, a'r cyfle i ymdawelu a myfyrio gyda'r nos, yng nghwmni llu o gyfeillion, gan fentro allan ar ddiwedd yr oedfa, i ganu a gwahodd y gymuned i ymuno.

Hyfryd, hefyd, oedd treulio orig fach fore'r Nadolig yn croesawu'r plant a'u teuluoedd a ddaeth i ddangos eu hanrhegion. Diolch i Ion Thomas am arwain yr oedfa.

**Gweithgareddau eraill**

Adran yr Urdd Salem – i unrhyw blentyn oedran cynradd – 'sdim angen bod yn aelod yn Salem – nos Iau 13 Chwefror a 6 Mawrth rhwng 6.00 a 7.00.

Clwb Brecwast i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - Bore Mercher 12 Chwefror a 5 Mawrth rhwng 9.45 a 11.15

Clwb Coffi – Bore Gwener 14 Chwefror a 14 Mawrth rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

Clwb y Bobl Ifanc – nos Wener 14 Chwefror rhwng 7.30 a 9.30, ac mae croeso i bawb, boed yn aelod yn Salem neu beidio

Os hoffech ragor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau, dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.




## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio dan nawdd *Actifyddion Artistig Caerdydd* ddydd Mawrth, 3ydd Rhagfyr. Ddydd Mawrth, 7ed Ionawr cafwyd perffformiad gan *Flutes a Frets*, deuawd o Lundain. Canodd Parti Plygain EDS yng ngwasanaeth Plygain Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina, Nos Lun, 16eg Rhagfyr. Mae prosiect cerddorol sy'n darparu lle croesawgar i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn EDS wedi dechrau. Bydd Cerddorfa Dovetail yn cyfarfod yn yr Eglwys bob bore Iau.

**Gwasanaethau'r Nadolig.**

Cynhaliwyd gwasanaeth o ddarlleniadau a cherddoriaeth ar ddechrau'r Adfent. Cafwyd cyflwyniad Nadolig gan yr Ysgol Sul ganol Rhagfyr. Y prynhawn cynt mwynhaodd y plant barti ac ymweliad gan Sion Corn. Diolch i Liz a Sylvia am drefnu. Cynhaliwyd Carolau'r Gilgant, gyda nifer o wynebau newydd yn y gwasanaeth a chafwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol gyda chôr yr Eglwys yn cymryd rhan flaenllaw. Bu hefyd wasanaethau Cymun ar Noswyl Nadolig a bore'r Nadolig. Diolch i aelodau Cylch Dewi am addurno'r Eglwys yn hardd a chwaethus. Diolch i blant yr Ysgol Sul am baratoi Cristinglau ar gyfer y Gwasanaeth Cristingl. Bydd y casgliad o £263.75 yn mynd at waith Tŷ Hafan.




**Cinio Nadolig**

Diolch i Delyth, Sian a Rhys am drefnu'r cinio yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd, ddydd Sul.

**Panto**

Cafwyd noson wych yn y Panto, nos Iau, 2il Ionawr.

**Llongyfarchiadau:**

Yolande Wyn Jones a Gareth Sheppard ar eu priodas.

Helen a Rhys Jones ar enedigaeth eu hŵyr, Alfie.

Megan ac Ieuan Jones ar enedigaeth eu mab, Nedw Glyn, a brawd bach i Nansi.

Wyn Mears am rifyn graenus, deiniadol arall o Gloch Dewi.

Rhys Jones ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed. Cyflwynwyd tysteb a darlun iddo fore Sul, 5ed Ionawr fel arwydd o'i gyfraniad clodwiw dros flynyddoedd maith.

**Cydymdeimlad**

Gyda gofid y derbyniwyd y newyddion trist am farw Phyllis Bryer, chwaer yng nghyfraith Chris Livesey. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Chris a John yn eu profedigaeth.

---

## TABERNACL, YR AIS

Cyfansoddwyd cerddi gan Lisa Tiplady a Catrin Dafydd yn gwerthfawrogi blynyddoedd o wasanaeth i'r eglwys gan Eirlys Pritchard Jones a Huw Thomas. Darllenwyd y cerddi mewn oedfa arbennig a'u cyflwyno'n swyddogol i'r ddau mewn llawysgrifen gywrain o waith Eleri Messenger, un o blant yr Ysgol Sul yn y 90au.

***Eirlys***

Mae i afon ffrydiau lawer,
nentydd dry yn gerrynt gwiw,
ac o ffynnon fach y Gwalciau
Rhondda Fawr a ddaeth i'th glyw,

wrth i'w dyfroedd dreiglo atat,
dros wythiennau drud dan draed,
ewyn ton ac emyn donau'n
gyfansoddol yn dy waed.

I bob ffrwd fe blymiaist tithau
o Ynyswen i'r Cymer draw,
a chest brofi undeb Hebron
pan ddaeth diwrnod rhoi dy law.

Yn y Porth cawn stori debyg,
Rhondda Fawr a Fach ddaw'n un,
gan roi'n hael i Daf o'u hanian
wrth i'w graean gario'u rhin

at yr Ais, lle bwriaist angor,
gloywi'r dŵr â gosteg gro,
ac yn glir o hyd fe welir
bob un cylch a 'sgogaist dro.

Nid yw llif o raid yn llonydd,
daw â bwrlwm i bob glan,
felly tithau wrth it dywys
dysg a Duw yn llwyr i'n rhan.

*Lisa Tiplady*

***Diolch i Huw Thomas***

Yn Ffynnon Wen, mae cyfaill gwlad
sy'n deisyf gwir ddarganfod
drwy geisio ystyr - cyrchu at
ragoriaeth yn ei hanfod.

Wrth wneuthur hyn, fe geidw'r fflam
ynghyn ym mhob trybini
a golau Iesu, lleufer dysg
a dywys ef, fel gweddi.

Am ŵr bonheddig, hynod yw!
Un ffraeth, cysáct a ffyddlon.
Hael ŵr ei deulu, gŵr ei iaith
a chyfoeth ei glasuron.

Glantaf, Cwm Rhymni gynt a'r Tab
ef ry o rym ei einioes
gan fynnu'r gorau drosom oll
ag awen ei uchelgais.

Cyfeilio mae, arweinydd yw -
un cyfoes, craff a hirben.
Y gŵr o fro Sanclêr a ddaeth
i ddeffro'r iaith â'i ddiben!

*Catrin Dafydd*

# Bwytai Merch y Ddinas

## *Tŷ Caws*



**Lowri Haf Cooke**

'Pa un yw eich hoff arcêd yng nghanol Caerdydd? Maen nhw'n adnoddau mor werthfawr ar hyn o bryd, wrth i awyrgrafwyr unffurf, siopau vapes a'u goleuadau neon gystadlu yn erbyn ei gilydd i greu dinas ddi-enaid a di-lun. Bu i 12 mlynedd o bolisiau cynni'r Ceidwadwyr, a rhaniadau tocsic, Brexitaidd, diffyg rheoleiddio cyffredinol, ddatgymalu cymaint am gymdeithas gan arwain at naws gyffredinol dlodaidd a di-deimlad yn y brifddinas. Dyna'n aml sut ydw i'n teimlo wrth gerdded o gwmpas y dre. A dwi'n nabod sawl un sy'n dweud nad aiff eu plant a'u pobol ifanc yn agos at ganol y ddinas, mor llwm a di-dostur yw'r awyrgylch cyffredinol yno, ac mae hynny wir yn achos o dristwch mawr.



I mi, roedd cael neidio ar y 57 neu'r 58 i'r dre, a chwrdd â'm ffrindiau ger cofeb Aneurin Bevan, cyn mynd ar grwydr o amgylch y ddinas yn cynrhychioli rhyddid a hwyl, am ychydig oriau ar bnawn Sadwrn. Doedd gen i fawr ddim yn fy mhwrs, ychydig bunnoedd, a digon i ddal y bws, ond nid gwario oedd y pwynt. Y bwriad wastad oedd treulio amser gyda'm ffrindiau, dilyn ein trwynau, a breuddwydio, o un arcêd i'r llall, cyn taro'r sinema neu rasio adre cyn amser te. Yn ddiarwybod i mi, roedden ni'n ffurfio'n chwaeth a ffeindio'n ffordd ein hunain trwy'r byd. Tu allan i'r Royal Arcade ac ar lawr ucha'r farchnad roedd siopau recordiau Spiller's a Kelly's, a llwyth o siopau dillad ail law. Dwi'n cofio ffeindio siaced felfed ddu wedi'i theilwra gan Susan Small yn Oxfam y Royal Arcade, a fy mam yn dweud, 'waw, roedd hi'n enw mawr yn y 1960au'; 30 mlynedd yn ddiweddarach, a dwi'n dal i'w gwisgo.

O ran urddas, mae'n anodd curo 'proportions' Arcêd Morgan, gyda'r caffi canolog, sy 'di newid dwylo droeon dros y blynyddoedd – fy *go-to* hyd heddiw (beth bynnag yr enw) am siocled poeth a bach o heddwch. Mae nifer yn dal i dyrru i gaffi llysieuol Crumbs rownd y gornel, ac am hir roedd y New York Deli yn Arcêd Stryd y Dug yn werth ymweliad, os am frechdan i fwyta oedd yn eich llenwi gymaint fel nad oedd angen bwyta swper. A sôn am wibdaith rhyngwladol, does dal dim curo ar Deli Wally's a'i arogl sbeislyd, cynnes, os am chwistrelliad o Mitteleuropa. Ers dros ddegawd mae'r caffi llawr uchaf yn cynnig coffi Einspänner, sy'n eich trawsgludo'n syth i ddinas Vienna.

Ond os oes rhaid dewis hoff arcêd yna does dim curo Arcêd y Castell i mi, am gyfuniad o atgofion melys o Gaerdydd fy arddegau, a phrofiad cyfoes sy'r un mor gyfoethog. Ar ben y Stryd Fawr roedd siop ddillad cŵl Barker's, a gyferbyn â'r castell roedd Cafe Minuet a'i fwydlen Eidalaidd, a rhywle yn y canol roedd siop drin gwallt Zoo a Claire Grove's Buttons. Hyd heddiw mi fedra i gofio arogl garlleg y caffi bach Eidalaidd hwnnw, a gofynnais unwaith i'r cogydd-berchennog, Marcello, beth oedd y gyfrinach? Roedd y blas yn nefolaidd. 'Dwi'n minsio'r garlleg, fydda i byth yn ei dorri.' Waw, sôn am game-changer i mi yn fy nghegin fy hun fel oedolyn! Yn wir, pan gaeodd y caffi toc cyn y pandemig, dwi'n cofio ffrind i mi yn derbyn copi o rysait 'Pasta James Bowman' – y saig bythol boblogaidd a enwyd ar ôl y canwr opera gwrth-denor a fynnai ymweld â Marcello's ar achlysur pob cystadleuaeth 'Canwr y Byd Caerdydd'. Fyny grisiau roedd Enfys Fashions – siop ffuglennol y gyfres deledu 'Dinas' - a tan yn ddiweddar, roedd siop win Wrights a stiwdio 'Buddug'. Dyddie da!

Wel diolch byth does dim rhaid boddi mewn pydew o hiraeth a nostalgia wrth grwydro Arcêd y Castell. Mae hi'r un mor fywiog, os nad yn fwy amrywiol, dyddie ma, diolch i gasgliad ffantastig o fusnesau anibynnol. Mae ymerodraeth cwmni lleol Barker's wedi ehangu i gynnig bariau coctel Rum and Fizz, Gin and Juice, a bwyty Maison de Boeuf am flas o Baris. A ble safai 'Marcello's' unwaith, nawr mae cwmni cacennau cri Fabulous, sy'n hudo ymwelwyr a dinasyddion â'u harogl eu hunain. Mae'n wych i weld siop drin gwallt Constantinou's a siop lyfrau ail-law Troutmark dal yn agored – ewch lawr staer am ddetholiad gwych o glasuron Cymraeg – ac mae'n anodd iawn curo cynigion popty Pettigrew, a sefydlwyd yn wreiddiol ym Mharc Bute.

Ond fy hoff le ar hyn o bryd am brofiad gwych yng Ngaherdydd yw siop a bar caws Tŷ Caws. Do, fe ddarllenoch chi hynny'n gywir gyfeillion, BAR CAWS!

Cyn hyn, bu'n rhaid teithio i Fine Cheese Company Caerfaddon, neu'r holl ffordd i fyny i & Caws ym Mhorthaethwy i brofi pleser a hedonistiaeth o'r fath! Mae'n siwr eich bod chi gyd wedi cwrdd ag Owen Davies dros yn y blynyddoedd, ar ei stondin Tŷ Caws ym marchnadoedd ffermwyr awyr agored amrywiol y ddinas, yn Riverside, y Rhath a Rhiwbeina. Mae e'n arbenigwr ers degawdau yn y maes caws rhyngwladol, ac yn 'affinieur' (perffeithydd caws) heb ei ail yma yng Nghymru; bu'n gweithio yn Llundain am flynyddoedd cyn dychwelyd adre, a sefydlu'r Cheese Pantry trwy gaffi Penylan Pantry cyn torri ei gwys (a'i gaws!) ei hun.

Mae siop Tŷ Caws ar agor ers rhai blynyddoedd bellach, ond toc cyn Nadolig ymestynnwyd y gofod i gynnwys gofod eistedd, ac yfed a gloddesta ar gawsiau (a gwinoedd) nefolaidd. Mae mentro yno fel camu i fwyty bach cŵl yn Oslo, neu far hynod chic ym mynyddoedd yr Alpau – mae'n brofiad gwefreiddiol a hynod waraidd, sy'n berffaith ar hyn o bryd, ganol gaeaf. Nawr, hawdd fyddai toddi yn un fondue o berlesmair, yn wyneb holl gynigion y fwydlen. (Gyda phob parch, mae na fwy ar gynnig na Brie a Cheddar.) Fy nghyngor i chi, ar gyfer eich ymweliad cyntaf fyddai; trefnwch ddêt, neu aduniad â ffrindiau da, ac archebwch un o'r platiau i rannu – mae'r awyrgylch 'intimate' yn mynnu hynny! Mae'r plât o gawsiau Cymreig (am £18) yn cynnwys caws Hafod o Lambed, caws glas Trefaldwyn a chaws hufennog Hiraeth tra fod y plât Prydeinig yn cynnwys caws Abaty o Geredigion, heb sôn am y detholiad rhyfeddol o Loegr, Ffrainc ac ati. Ceir hefyd ddewis o gracyrs a bara a chatwadau, sydd i gyd ar werth ar y silffoedd. Ymysg y cynnyrch lleol mae Penylan Preserves a mêl Tonyrefail, a syniadau di-ri am roddion bwytadwy, a hyd yn oed tŵr caws pe bai chi am gacen briodas gwahanol...

I rai pobol caiff caws, ac yn wir, arcêds Caerdydd, eu neilltuo i amser Nadolig yn unig. Wedi'r cyfan, mae'r goleuadau tylwyth teg mor brydferth, a'r caws mor gyfoethog a blasus – yn wir, yn ddigywilydd, anfoesol, o ddanteithiol – *rhaid* bod na beryg i ni fynd yn ddibynnol ar brofi'r fath bleser, ac felly rhaid bod na derfyn i'r fath oferedd. Wedi'r cyfan, medd rhai; onid cyfnod cosbi ein hunain yw misoedd y gaeaf ar gyfer llunio 'beach bods' rhyw ddyfodol delfrydol? Wel dwi yma i ddweud yn blwmp ac yn blaen, 'nonsens llwyr!' Mewn cyfnod sydd dal i fod yn heriol, yn enwedig dros y misoedd gaeafol, gadewch i ni barhau i ddathlu, ac ymhyfrydu yn y gorau sydd gan Gymru – a Chaerdydd – i'w gynnig i'r byd. Mae Tŷ Caws, ac yn wir, arcêds canol y ddinas yn brawf clir o'n gwareiddiad, a'n ffordd o ddathlu bywyd yn ei holl dymhorau.

**Tŷ Caws, 28 Arced y Castell, Caerdydd CF10 1BW**

***Gwledd*, *Bwytai Cymru*, *Caffis Cymru*, *Canllaw Bach Caerdydd* ac *Amser Nadolig* gan Lowri Haf Cooke, ar werth yn eich siop lyfrau lleol a www.gwales.com**

## Merched Plastaf

Llongyfarchiadau i Ferched Plastaf ar y cyngerdd Nadolig hyfryd yn Eglwys St John's Treganna nos Fercher 18 Rhagfyr – byth yn siomi. Diolch yn fawr i'r holl aelodau.

Bu 2024 yn flwyddyn brysur eto i'r côr, a chafwyd llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n werth nodi, hefyd, bod y côr yn falch o groesawu nifer o aelodau newydd. Diolch i'r aelodau ffyddlon sydd wedi bod gyda'r côr ers blynyddoedd, ac sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn i fynd i golegau a phrifysgolion. Bydd yn golled, ac yn od iawn hebddoch chi, a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Cofiwch gadw mewn cysylltiad.

### CD

Mae'r côr wedi bod yn recordio albwm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a diolch i'r holl aelodau am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Mae wedi bod yn her, yn hwyl ac yn hollol hyfryd cael cyfle i roi lleisiau hardd y merched ar gof a chadw am byth. Y gobaith yw rhyddhau'r CD yn ystod y gwanwyn eleni, felly cadwch eich llygaid ar agor i weld cyhoeddiad cyn bo hir am ddyddiad y lansiad.





## Diwedd Cyfnod i Grŵp Lleol RSPB Caerdydd a’r Cylch

Ar ôl 50 mlynedd a llu o wirfoddolwyr, gyda thristwch mawr y cyhoeddodd Grŵp Lleol RSPB Caerdydd a’r Cylch ei fod yn dod i ben yn 2024. Fel llawer o grwpiau a arweinir gan wirfoddolwyr, mae’r Grŵp wedi bod yn brwydro i barhau ar ôl y cyfnod clo. Mi roedd hi’n gyfarfod anodd ar ddechrau 2024 pan benderfynwyd nad oedd digon o gefnogaeth i gynnal y Grŵp i allu parhau.

Mae gan yr RSPB rwydwaith helaeth o Grwpiau Lleol hanfodol ledled y DU, yn gwneud gwaith rhyfeddol yn ein cymunedau, ac i lawer, y Grwpiau hyn yw wyneb a llais lleol yr RSPB.

Prif bwrpas Grŵp Caerdydd oedd i ddysgu ac ennyn diddordeb mewn adar a bywyd gwyllt, cymdeithasu a chodi arian trwy amryw o ddigwyddiadau – gwaith cadwraeth, gweithgareddau gyda’r YOC (Young Ornithologists Club), ffeiriau, sgyrsiau, gwyliau a theithiau cerdded i wylio adar, yn ogystal â chreu cylchlythyr chwarterol bob blwyddyn i’r aelodau. Yn y blynyddoedd diwethaf, y sgyrsiau a’r cerdded oedd y prif ddigwyddiadau.

Cynhaliwyd sgyrsiau yn Neuadd Blwyf Llandaf, lle cafwyd cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd fel Roger Lovegrove, sylfaenydd swyddfa gyntaf yr RSPB yng Nghymru, Katie Jo-Luxton, Cyfarwyddwr RSPB Cymru ar y pryd, bellach yn Gyfarwyddwr Cadwraeth Fyd-eang yr RSPB. Cynhaliwyd noson hynod ddifyr yng Nghwrt Insole, Nadolig 2023, yng nghwmni Iolo Williams, y cyflwynydd a’r cadwraethwr i ddathlu hanner canmlwyddiant y Grŵp.

Aeth y teithiau cerdded i wylio adar i amrywiaeth eang o leoliadau a chynefinoedd, gan gynnwys, yn lleol Parc Tredelerch, Llyn Hendre, Gwlypdiroedd Bae Caerdydd ac ychydig ymhellach wedyn i Wlypdiroedd Casnewydd, WWT Llanelli, Aberogwr a Choedwig Llanwynno gyda’r hwyr i chwilio’r troellwr mawr, digwyddiad poblogaidd dros ben.

Hoffai Grŵp Lleol RSPB Caerdydd a’r Cylch ddiolch yn fawr iawn i’r aelodau am eu cefnogaeth am 50 mlynedd hwyliog, ac mi fydd aelodau’r pwyllgor yn colli eich cyfeillgarwch. Pwy a ŵyr, efallai mai gaeafgysgu mae’r Grŵp am y tro, a daw gwaed newydd yn y dyfodol i ail-ffurfio Grŵp Lleol y Brifddinas.

Angharad Jones, Cyn Arweinydd Grŵp Lleol RSPB Caerdydd a’r Cylch

Mae’r dudalen Facebook am barhau - Memories of RSPB Cardiff & District Local Group

---



# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Troeon Trwstan Tiwtor Cymraeg

**Gwilym Dafydd**

Rhan bwysig o yrfa pob tiwtor yw derbyn ymwelwyr i'r dosbarth. Cydweithwyr yn rhannu syniadau, rheolwyr yn gwerthuso, darpar diwtoriaid dan hyfforddiant, rydyn ni'n eu croesawu nhw i gyd. Ac ar ben hynny, bob hyn a hyn, mae'r gair yn mynd o gwmpas – mae'r arolygwyr ar y ffordd!

Mae pawb yn gwybod sut i baratoi at yr ymweliadau hyn. Mae angen sicrhau bod y gwaith papur yn ei le, cyrraedd yn brydlon, ac yn bwysicach o lawer, cynllunio a chyflwyno gwersi cyffrous a diddorol. Fel arfer, mae'r gwersi yn mynd yn dda, mae pawb yn hapus, ac mae'r arolygwyr yn symud ymlaen i'r ardal nesaf. Ond wrth gwrs, ambell waith mae rhywbeth bach yn mynd o'i le.

Ymhlith y profiadau anffodus ges i oedd dysgwyr dosbarth yn y gweithle i gyd yn cyrraedd dri chwarter awr yn hwyr oherwydd argyfwng yn y gwaith, ac adeg arall aeth yr arolygydd ar goll a methu dod o hyd i'r adeilad cywir tan chwarter awr cyn diwedd y wers. Un tro, cyrhaeddais i'r ystafell ddosbarth i ddarganfod bod y cyfrifiadur a'r taflunydd wedi'u dwyn. Roeddwn i'n bwriadu gwneud defnydd helaeth ohonyn nhw yn ystod y wers ac roedd rhaid ailgynllunio ar frys. Llwyddais i i ddod i ben rywsut. Efallai dylid ychwanegu modiwl *Sut i Gynllunio Gwers Ddwy Awr mewn Deg Munud* i gyrsiau hyfforddi tiwtoriaid!

Hoffwn egluro bod arolygwyr yn broffesiynol a chwrtais iawn wrth fynd o gwmpas eu gwaith. Dw i'n cofio rhai ymweliadau pan oedd y dysgwyr wedi dweud faint roedden nhw wedi mwynhau siarad â'r arolygydd. Serch hynny, dw i'n cofio un achlysur pan gafodd yr arolygydd, y dysgwyr a finnau dipyn o syrpreis. Roedd y dosbarth yn cael ei gynnal mewn adeilad lle roedd adran ddiogelwch wrth y dderbynfa. Pan oedd disgwyl ymwelydd i'r dosbarth, roedd rhaid trefnu ymlaen llaw gan roi enw'r ymwelydd i staff y dderbynfa. Dyma fi, felly, yn trefnu wythnos ymlaen llaw fod yr arolygydd yn cael mynediad ar y diwrnod angenrheidiol.

Daeth y dydd mawr. Roeddwn i yn fy lle yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y dysgwyr yn eu seddau yn yr ystafell ddosbarth yn prysur drafod digwyddiadau'r wythnos. Wrth gerdded o gwmpas a gwrando ar y dysgwyr, edrychais i bob hyn a hyn ar y cloc, yn awyddus i ddechrau'r wers yn brydlon. Ond, pan gyrhaeddodd amser y wers doedd dim golwg o'r arolygydd. Beth i'w wneud? Doedd dim byd amdani ond dechrau'r wers hebddo.

Hanner awr yn ddiweddarach dyma'r ffôn yn canu. Digwyddiad anarferol oedd hyn. Stopiodd y dysgwyr siarad a throi i edrych arna i. Eglurodd llais pen arall y lein fod dyn wrth y dderbynfa yn mynnu cael dod i mewn er mwyn ymweld â'r dosbarth Cymraeg. A oeddwn i'n gwybod unrhyw beth amdano? Eglurais fy mod i a dwedodd y llais nad oedden nhw wedi cael gwybod ymlaen llaw ac felly wedi gwrthod ei adael i mewn. I dorri stori hir yn fyr, ar ôl tipyn o drafodaeth, daeth yn amlwg bod rhywun wedi camsillafu enw'r dyn ar y rhestr o bobl oedd i fod i gael mynediad y diwrnod hwnnw. Roedd e'n cael dod i mewn wedi'r cyfan.

Penderfynais i dorri am egwyl yn gynnar. Aeth un o'r dysgwyr i'r dderbynfa i 'nôl yr arolygydd ac aeth un arall i'r ffreutur i 'nôl paned iddo. Daeth yr arolygydd i mewn gan edrych ychydig yn anesmwyth ar ôl digwyddiadau'r bore hyd hynny, ond ar ôl yfed ychydig o goffi, ymddangosai'n fwy ymlaciedig a hyd yn oed yn fodlon dweud jôc am diwtoriaid oedd yn barod i wneud unrhyw beth i osgoi cael eu harsylwi. O leiaf roeddwn i'n meddwl mai jôc oedd e. Ymlaen â'r wers felly, ond roedd syrpreis arall i ddod.

Roedd yr ystafell ddosbarth yn ardderchog, gydag un wal gyfan yn wydr, yn edrych i lawr dros atriwm. Roedd coed a phlanhigion yn tyfu yng ngwaelod yr atriwm, gyda rhai yn tyfu mor uchel fel eu bod nhw'n weladwy i bobl yn yr ystafell ddosbarth. Beth nad oedd yn weladwy oedd y silff ochr arall y gwydr, ar yr un lefel â llawr yr ystafell. Roedd y silff yn ddigon mawr i rywun gerdded arni er mwyn gofalu am y planhigion.

Gyda'r wers yn mynd yn ei blaen, roeddwn i'n wynebu'r dysgwyr ac roedd y dysgwyr yn fy wynebu i. Yn ei sedd, roedd yr arolygydd gyferbyn â'r gwydr, yn sipian ei baned. Yn sydyn, dyma fe yn tagu ar y ddiod a chodi llaw i bwyntio at y gwydr. Trodd pawb i edrych a dyna lle roedd garddwr yn cerdded ar hyd y silff anweladwy ochr arall y gwydr.

" Yn glou," ebychodd yr arolygydd. "Rhaid inni ffonio a chael help iddo fe!"


Gwenodd y dysgwyr i gyd a brysiais i i egluro bod y garddwr yn mynd o gwmpas ei waith ac nad oedd angen cymorth.

Dw i ddim yn gwybod ai fi neu'r arolygydd oedd hapusaf i weld y wers yn dod i ben. Yr unig adborth ges i oedd bod y wers yn rhagorol!

*Carole Bradley*


Mae'n hyfryd cael cwmni Carole yn Yr Awr Hapus ar foreau Llun – un o'r ffyddloniaid erbyn hyn ac yn ymuno gyda ni weithiau ar y daith gwylio adar misol – fore Sadwrn cyntaf o'r mis. Wele ychwaneg o hanesion difyr Carole yma a diolch iddi am y cyfraniad unwaith eto.

## Rhif: 249




**Ar Draws**
6. 'Pa swynwr fu o dŷ i dŷ
Ar ôl dechreunos -----' (EW) (7)
7. Cael dau beint yn chwarel Tomos (5)
9. Merch y gân (5)
10. Gall Nero rywsut weld golau'r lleuad (7)
12. Ai clear i Wyddel fod yma? (11)
14 'A oes a'ch deil ----- ----- ----- ----- a chalon
Hen bethau anghofiedig teulu dyn?' (WW) (1,3,4,3)
18. Haneru'r angen i chwynnu a'i ollwng o'r meddwl (7)
19. Gwau maneg i hon (5)
21. Lle dan ddaear yn hanes Eleri (5)
22. 'Aros mae'r ----- mawr
Rhuo trostynt mae y gwynt' (JCH) (7)

**I Lawr**
1. Torri adduned diddiwedd i'r adeilad (5)
2. Yr arth a'r gorfran ar yn ail yn mynd i'r coleg (6)
3. Cyfyngu'r adeiladwr i amser (3)
4. Archwaeth heb ei ddiwallu yn troi'n ddifyrrwch (6)
5. Cymdogaeth sydd heb ddechrau ceisio pendefig (7)
8. Rhoi mawl i Anti Mol (7)
11. Rhoi amser mewn i geisio cerdded (7)
13. Hed angerdd diddiwedd yn llydan (7)
15. 'Rheolir pob byd gan air cadarn Iôr
------ o hyd yw daear a môr (HCW) (6)
16. ' Dringa' i fyny i'r -----
I gael gweled maint fy mai' (WW)(6)
17. Anifail i bob golwg (5)
20. Chwilio am aeron yn y cenllysg (3)



**Enillydd Croesair Rhif 247**
**Dafydd Roberts, Bangor**

**Atebion Croesair Rhif 247**

**Ar Draws**
1. Yn colli dagrau 7. Dynol 8. Yfory 9. Sur 10. Cyfrinair 11. Mwy aml 12. Diogel 15. Anterliwt 17. Aur 18, Ar led 19 Esgid 21. Ennyd ar yn ail

**I Lawr**
1. Ymresymiadau 2. Llun 3. Dylyfu 4, Gwyliaist 5. Agora 6. Cyn'r elo'r haul 7. Dirwy 10.Cymeradwy 13. Gwaed 14. Difetha 16. Telyn 20. Gwy

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# *Llythyr at y Golygydd*

Annwyl Olygydd

Yn dilyn taith Cwmni Theatr Maldwyn o *Pum Diwrnod o Ryddid* dros yr hydref, byddwn yn mynd â'r sioe ar daith fer unwaith eto'r gwanwyn yma, ac rwy'n falch o gael dweud y bydd taith y gwanwyn yn cynnwys noson yn y de-ddwyrain! Mae'r cwmni'n edrych ymlaen yn arw at gael dod i'w pherfformio yng Nghanolfan ICC Cymru y tu allan i Gasnewydd (oddi ar gyffordd 24 yr M4, ger y Celtic Manor), a hynny nos Sadwrn 10 Mai. Fel y bydd nifer o'ch darllenwyr yn gwybod, *Pum Diwrnod o Ryddid* yw un o sioeau mwyaf adnabyddus y cwmni, sy'n adrodd hanes y Siartwyr a phobl gyffredin yn brwydro am eu hawliau yn wyneb Sefydliad hunanlesol oedd yn benderfynol o gadw'r werin yn ei lle. Mae'n addas hefyd ein bod ni'n dod â hi i Gasnewydd, sydd, fel Llanidloes, yn enwog wrth gwrs fel un o gadarnleoedd Siartiaeth. Nod y sioe ydy cyfleu tyndra ac angerdd y cyfnod mewn ffordd sy'n dod â mwynhad i gynulleidfa eang, ac mae'n sioe sy'n addas i'r teulu cyfan. Mae'r tocynnau ar gael i'w prynu ar-lein drwy wefan ticketsource – ewch i
www.ticketsource.co.uk/
cwmnitheatrieuenctidmaldwyn
<http://www.ticketsource.co.uk/
cwmnitheatrieuenctidmaldwyn>
Maen nhw'n gwerthu'n barod, felly peidiwch ag oedi – ac mi'ch gwelwn ni chi yng Nghasnewydd!

*Penri Roberts*
*Cwmni Theatr Maldwyn*

# Dyddiadur teithio:
## ennill persbectif byd-eang

Haf diwethaf, wedi i mi a fy ffrindiau orffen ein harholiadau Lefel-A, fe dreulion ni gwpl o wythnosau yn teithio o gwympas Ewrop ar antur fach cyn i bawb ddechrau ar eu hantur eu hunain yn y brifysgol yn yr hydref.

Fe ddechreuon ni yn Split, Croatia, a chefais fy nharo gan y gwres o'r eiliad inni gerdded allan o'r maes awyr. Roedd hi'n anghredadwy bod yn y lle roedden ni wedi cynllunio mynd iddo ers misoedd, ac roedd hi'n gyferbyniad llwyr i'n cartref yng Nghymru, felly gymerodd hi gwpl o ddyddiau i addasu i'r tymheredd uchel! Roedd y ddinas yn llawn welydd hynafol a marchnadoedd bychain yn gwerthu pob math o swfeniriau.



*Llyn Bled yn Slofenia, gyda Chastell Bled yn y cefndir*

Nesaf oedd Budpest, Hwngari. Gyda'i hadeilad Senedd crand a'i chastell moethus, roedd hi'n ddinas fywiog dros ben. Mwynhawyd golygfa anghredadwy o banoramig o'r ddinas o Fisherman's Bastion, a bwyd blasus yn y farchnad. Erbyn diwedd ein hamser yno, teimlon ni fel arbenigwyr yn defnyddio'r *metro.*

Efallai mai'r natur brydferthaf i mi ei weld erioed oedd Slofenia gyda'i mynyddoedd gwyrddion yn sefyll yn uchel o'n cwmpas, a'r dŵr yn disgleirio yn yr heulwen. Arhoson ni yn y brifddinas, Ljubliana, a mynd am drip ar y bws i Lyn Bled. Cafon ni rwyfo draw i'r ynys ar y llyn ble mae yna gastell canoloesol. Roedd y diwylliant ym mhob lleoliad mor wahanol ac roedd hi'n ddiddorol gweld y modd roedd bywydau bob dydd pobl eraill yn gymaint o gyferbyniad i'n bywydau ni.

Heb os, uchafbwynt y daith imi oedd yr Eidal. Yn gyntaf, aethon ni i Fenis, oedd yn llawn camlesi bach ac adeiladau lliwgar. Ar bob troad roedd yna rywle newydd i'w ddarganfod, ac fel gwir dwristiaid, aethon ni ar gondola ar hyd y gamlas a mwynhau y golygfeydd o'n cwympas. Fe grwydron ni o amgylch Sgwâr Sant Mark, ac wrth gwrs bwyta digon o bitsa a phasta trwy gydol ein hamser yn y wlad. I Florence aethon nesaf – heb os fy hoff leoliad – a chrwydro o gwmpas amgueddfeydd anhygoel a gwerthfawrogi'r bensaernïaeth. Fe welon ni gerflun crefftus 'David' gan Michaelangelo yn y Galleria dell' Accademia di Firenze. Un atgof sy'n glynu yw bwyta swper tu allan i'r Duomo a chlywed y clychau yn canu yn uchel wrth i ni glebran dros ein bwyd. I orffen ein taith, cymeron ni fws lan at Pizzale Michelangelo i wylio'r haul yn machlud dros y ddinas. Roedd y lliwiau yn anhygoel ac yn goleuo'r afon oedd yn llifo rhwng yr adeiladau islaw, ac wrth iddi nosi, daeth y goleuadau bychain ymlaen gan greu sêr allan o'r adeiladau yn y pellter.

Roedd cael teithio gyda'm ffrindiau a gweld llefydd newydd yn brofiad anhygoel a theimlaf yn lwcus dros ben i allu gwneud hynny. Newidiodd fy nghanfyddiad o'r byd, a dychwelais i Gymru wedi cael budd o brofiadau, diwylliannau a thraddodiadau newydd. Cefais fy atgoffa o'r holl lefydd anhygoel sydd yn y byd i'w darganfod, a'r ffaith bod gwerthfawrogi diwylliannau eraill yn cryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol personol ac yn ein siapio yn ddinasyddion byd-eang.

*Cristyn Rhydderch Davies*



***Yr olygfa wrth i'r haul fachlud o Piazzale Michelangelo, Florence, Yr Eidal.***

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Y DIGWYDDIADUR

## Chwefror

**Mawrth, 11 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Ruth Evans ar y testun 'Cŵn Arwain i'r Deillion', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 2.30pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Sadwrn, 15 Chwefror**
Theatr Iolo yn cyflwyno 'Taclus' (i blant 3–7 oed), am 10.30am. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/taclus/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Llun, 17 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Sian Meinir ar y testun 'Pererindod y Gân', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 18 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Mab y Mans' yng nghwmni Arfon Haines Davies, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 20 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Sgwrs gan Sara Huws o Lyfrgell Prifysgol Caerdydd am hanes menywod Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Gwener, 21 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Malachy Edwards ar y testun 'Iwerddon *Y Delyn Aur* a Barbados *Paradwys Goll*: ysgrifennu am hunaniaeth ac amlddiwylliannaeth'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Llun, 24 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Bydd Mirain Rhys (Prifysgol Met Caerdydd) yn rhoi amlinelliad o'r 'UK Young Academy' a'i pherthnasedd i newid yng Nghymru a Delyth James (Prifysgol Met Caerdydd) yn rhoi sgwrs ar y testun 'Cymysgu Seicoleg a Fferylliaeth – fel ateb i bopeth!', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Mawrth, 25 Chwefror**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Ben Curtis (Prifysgol Abertawe) ar y testun 'Brwydr Olaf Glowyr De Cymru, 1979–1985'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Mawrth

**Sadwrn, 1 Mawrth**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Sadwrn, 1 Mawrth**
Theatr Iolo yn cyflwyno 'Taclus' (i blant 3–7 oed) yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, Y Barri, am 10.30am. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/Shows/tidy-taclus-sioe-gymraeg/

**Sadwrn, 1 Mawrth**
Cyngerdd Dydd Gŵyl Ddewi gan Gail Pearson (soprano), Christopher Williams (piano) a myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, yn Eglwys Christ Church, Radur (CF15 8DY) am 7.00pm. Tocynnau: £10 wrth y drws er budd 'Help Musicians'.

**Sadwrn, 1 Mawrth**
Cabaret Gŵyl Ddewi (16+) yng nghwmni Siwan Henderson, Celyn Cartwright a Steffan Hughes, yng Nghanolfan Mileniwm Cymru am 8.00pm. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/cabaret-gwyl-dewi

**Llun, 3 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd am 7.30pm. Adloniant gan Rhys Ruggerio. Enwau i Carol O'Donnell erbyn 20 Chwefror. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mawrth, 4 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Taith Gymreig o Loegr' yng nghwmni Geraint Rees, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 5 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson Siaradwyr Newydd yng nghwmni Yuqi 'Morwenna' Tang a Natasha Baker, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso.

**Gwener, 7 Mawrth**
Cynhelir Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn yr Eglwys Fethodistaidd, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 2.00pm. 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol' yw thema'r gwasanaeth. Croeso i bawb. Darperir paned a chacen wedi'r gwasanaeth.

**Sadwrn, 8 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc, yn y Llyfrgell Ganolog ar yr Ais (Ystafell 4, Lefel 4). Cofrestru am 9.30am (£10.00). Siaradwyr: Ian Gwyn Hughes yn trafod 'Y Gymdeithas Bêl-droed a'r Gymraeg' a Helen Prosser yn trafod 'Gwaddol Eisteddfod Pontypridd'.


**Sadwrn, 8 Mawrth**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i drafod y nofel *Sgythia: Hanes John Dafis, Rheithor Mallwyd* (2017) gan Gwynn ap Gwilym yng nghwmni Dewi George, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso. Manylion: gwybodaeth@cwmpawd.org

**Llun, 10 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 yr un. Siaradwraig wadd: y cyfarwyddwr cerdd, Gwawr Owen. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r cyd-Ysgrifennydd, Paul Morgan (07761-696286; cylch.cinio@gmail.com).

**Mawrth, 11 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Kate Griffiths ar y testun 'Ioga Cadair', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.00pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

## *rhwng dau feddwl*, Christine James, Cyhoeddiadau Barddas, 2024

Un o'r llyfrau a sylwais wrth chwilio am anrhegion Nadolig oedd *rhwng dau feddwl,* ail gasgliad o farddoniaeth y cyn-Archdderwydd a Chofiadur yr Orsedd, Christine James.




Ceir ganddi esboniad diddorol o'r teitl. Meddyliwch am fardd yn sgwennu cerdd: gobeithia y bydd ei syniad yn cael ei drosglwyddo o'i feddwl i feddwl y darllenydd – y bydd yn symud rhwng dau feddwl. Mae arwyddocâd arall i'r teitl hefyd – darllenwch ragair yr awdur i gael esboniad!

Mae cyfoeth o gerddi yma, o ran cynnwys a chrefft. Cawn gerddi am deulu'r bardd a'i hwyrion, cerddi am Batagonia ac am Sain Ffagan, cerddi sy'n ymateb i weithiau celf, a cherddi sy'n adlewyrchu etifeddiaeth gyfoethog Christine yng Nghwm Rhondda; cerddi cyfarch, cerddi am gymeriadau hanesyddol, a cherddi am adegau fel y Nadolig a'r Calan. Mae'n siŵr caiff nifer eu darllen ar goedd yn y dyfodol. Mae'r amrywiaeth o fesurau rhydd yn cynnwys gwers rydd, sonedau, *villanelle*, a nifer o gerddi eraill mewn mydr ac odl.

Casgliad twyllodrus o syml sy'n cynnwys cyfoeth o brofiad a dysg ydyw. Ychwanegiadau gwerthfawr yw'r nodiadau cefn cyfrol a'r lluniau a dônt yn rhan o gyfoeth eich profiad.

Ymhlith y cerddi i'r wyrion mae 'Ble mae dy fami di?' (t.20), gyda'r bardd yn ceisio egluro wrth ei hwyres fach fod ei mam (mam y bardd), Nana, yn dal yn fyw drwyddi hi: 'Mae i'w chlywed yn fy chwerthin;/dyma hi yn y gusan hon,/a'n cwtsh ar ddiwedd dydd'. Mae'r anwyldeb hwn yn cynhesu'r gyfrol gyfan. Mae'r casgliad hefyd yn adlewyrchu dysg ac athrylith Christine (chwiliwch am 'yr aelwyd hon', t. 76; 'pacio', t. 98; 'comisiwn', t. 100 – y ddwy olaf yn gerddi i Hywel Fychan, prif ysgrifydd Llyfr Coch Hergest; a'r cerddi i ffynnon Fair, Pen-rhys sydd ymhlith y cerddi am y teulu).

Gobeithio y bydd yr ychydig eiriau hyn yn eich denu i ddarllen y gyfrol. Cewch lawer i'ch ysbrydoli, wrth i fyfyrdodau Christine deithio dro ar ôl tro 'rhwng dau feddwl'.

*Glenys M Roberts*

---

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. 'Paned a Sgwrs' yn Y Deri, Rhiwbina (CF14 6UH), am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 20 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi yn Yr Hen Lythyrdy, Sain Ffagan. Gwraig wadd: Sian Meinir. Manylion pellach: cymrodorioncaerdydd@gmail.com

**Iau, 20 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Grŵp Ann a June, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Iau, 20 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd y dramodydd a'r nofelydd, Dafydd James, yn trafod ei waith yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Gangen y Garth, Merched y Wawr. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Arwel Vittle ar y testun ' "Y Wharioredd" – golwg ar arloeswyr benywaidd y Blaid Genedlaethol'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 24 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan O. Rhodri Jones (CERN) ar y testun 'Darganfod y Boson Higgs a dyfodol y Gwrthdarwr Hadronau Mawr', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Llun, 24 Mawrth**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Hywel M. Davies, Aberystwyth, ar y testun 'Cofio Jemima: Y Ffrancwyr yn Sir Benfro yn 1797 – golwg newydd ar hen hanes'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 27 Mawrth**
Menter Caerdydd. Taith dywys i ddysgu rhagor am gynnwys Archifau Morgannwg, Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AW, yn dechrau am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dudalen 2.**

Ar ddechrau blwyddyn newydd o weithgareddau, mae Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn awyddus i glywed eich barn am ein gwasanaeth, a'ch syniadau ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol. Mae croeso i chi anfon eich awgrymiadau atom ar e-bost (post@mentercaerdydd.cymru) neu dewch draw i'n stondin yn Eisteddfod Caerdydd ar 7 Chwefror i gael sgwrs. Ac os ydych chi'n chwilio am gyfle i wirfoddoli, cofiwch gysylltu!

Yn y cyfamser, cymerwch gip ar galendr mis Chwefror ac ewch ati i gofrestru ar gyfer yr amryw sesiynau.

**Cyrsiau Zoom**
Os ydych chi'n hwyr yn cofrestru ar gyfer ein cwrs diweddaraf, peidiwch â phoeni gan fod recordiadau ar gael. Bydd **Merch, Aderyn a Bedwen: Byd Dafydd ap Gwilym** yn rhedeg dros dair nos Lun ym mis Chwefror (3, 10, 17) wrth i'r Athro Sara Elin Roberts gymryd golwg ar rai o gerddi bardd Cymraeg mwyaf yr Oesoedd Canol. Bydd cyfle i edrych ar y cyd-destun llenyddol a hanesyddol ac ystyried rhai o'r themâu oesol sy'n sicrhau apêl a pherthnasedd ei waith hyd heddiw. (Cost: £12)

Cynhelir cwrs arall ar Zoom ar dair nos Lun ym mis Mawrth – **Cofio Dewi ar hyd yr oesoedd**. Yn ystod y sesiynau, bydd Dr Dewi Alter yn trafod sut mae ein delwedd o Dewi Sant wedi newid dros y canrifoedd. Bydd pob darlith yn canolbwyntio ar gyfnod gwahanol - y Canol Oesoedd; y cyfnod yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd, a'r oes fodern - 'y Gymru seciwlar'. Bydd recordiadau ar gael os byddwch yn methu sesiwn. (Cost: £12)

**Sgwrs y Mis**
Mae hi'n 40 mlynedd ers diwedd Streic y Glowyr – yr anghydfod diwydiannol hiraf yn hanes gwledydd Prydain. Yn ein sgwrs ddiweddaraf ar Zoom, nos Fawrth, 25 Chwefror, bydd Dr Ben Curtis yn bwrw golwg yn ôl dros gyfnod cythryblus yn hanes Cymru gan ddechrau gyda'r digwyddiadau'n arwain at 'frwydr olaf glowyr de Cymru, 1979-1985'. (Am ddim ond croesewir cyfraniadau)

**Cwrs Cymorth Cyntaf Brys (Lefel 3)**
Hoffech chi ddysgu sgiliau cymorth cyntaf sylfaenol i helpu rhywun mewn sefyllfa argyfwng? Mae Menter Caerdydd yn cynnal cwrs undydd yn yr Hen Lyfrgell ar ddydd Gwener, 21 Mawrth – cost, £90. Am fwy o fanylion, cysylltwch â sian@mentercaerdydd.cymru neu ewch i'r wefan i gofrestru.

**Gweithgareddau Hanner Tymor**
Bydd ein cynllun chwarae agored i blant cynradd yn dychwelyd yn ystod hanner tymor gyda sesiynau'n cael eu cynnal, yn rhad ac am ddim, mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. I'r rhai sy'n chwilio am weithgareddau trwy'r dydd, bydd y cynllun Gofal yn rhedeg yn ysgolion Treganna, Melin Gruffydd a'r Berllan Deg gyda'r prisiau'n amrywio o £28 i £32. Gweler yr hysbysebion am fwy o fanylion.

**Amser Stori**
Bydd sesiynau Amser Stori ac Amser Stori, Cyfri a Chân yn parhau yn ystod y tymor ysgol ac yn cymryd hoe dros hanner tymor. Cewch hyd i'r lleoliadau a'r amseroedd ar y wefan: mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn
https://menterbromorgannwg.cymru/cy/gweithgareddau/rhiant-a-phlentyn

**Sesiynau sgwrsio**
Cynhelir nifer fawr o sesiynau sgwrsio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg gyda chyfle i siaradwyr Cymraeg o bob lefel gwrdd am glonc. Ymhlith y cyfarfodydd newydd mae Grŵp Sgwrsio Hyb y Llyfrgell Ganolog, bob prynhawn Iau am 3.00 o 6 Chwefror. Mae Hyb Rhiwbeina yn bwriadu sefydlu sesiwn sgwrsio cyn bo hir.

**Ar y gweill:**
Dydd Iau, 27 Mawrth, 10.30yb – Taith Dywys: Archifau Morgannwg – manylion ar y wefan
Taith Dywys i'r Deml Heddwch – Dyddiad i'w gadarnhau

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion
I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

